# Agenda - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Tachwedd 2024

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price** - Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Deisebau@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 - 38)

## 2 Deisebau newydd

2.1 P-06-1430 Cefnogi plant byddar trwy wneud ymrwymiad ariannol i adfer niferoedd athrawon plant byddar

(Tudalennau 39 - 53)

2.2 P-06-1460 Ystyried opsiynau i drosglwyddo perchnogaeth asedau hanesyddol o Ystad y Goron i Lywodraeth Cymru

(Tudalennau 54 - 57)

2.3 P-06-1464 Caniatáu i deuluoedd Cymru sydd wedi colli baban cyn 24 wythnos gael tystysgrif colli baban

(Tudalennau 58 - 62)

2.4 P-06-1465 Gwnewch Herwgydio Anifeiliaid Anwes yn Drosedd Benodol yng Nghymru

(Tudalennau 63 - 68)

2.5 P-06-1471 Gwahardd Ambiwlansys rhag cael eu defnyddio fel gwelyau ychwanegol ar gyfer ysbytai

(Tudalennau 69 - 76)

2.6 P-06-1472 Rhaid diogelu ein bywyd gwyllt ... dylid gwahardd glaswellt plastig yng Nghymru!

(Tudalennau 77 - 83)

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

3.1 P-06-1329 Gosod uchelgais ac amserlen glir i roi addysg cyfrwng Cymraeg i bob plentyn yn y wlad

(Tudalen 84)

3.2 P-06-1387 Darparu cymorth dyngarol i Gaza

(Tudalennau 85 - 88)

3.3 P-06-1395 Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent

(Tudalennau 89 - 92)

## Mae'r ddwy ddeiseb a ganlyn wedi'u grwpio gyda'i gilydd i'w trafod

3.4 P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

(Tudalen 93)

3.5 P-05-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

(Tudalennau 94 - 98)

## Cludiant Bws

3.6 P-06-1346 Darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim a hygyrch i'r rhai o dan 18 oed yng Nghymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a hybu twf

(Tudalennau 99 - 100)

3.7 P-06-1264 Gwarantu cludiant ysgol ar gyfer holl ddisgyblion ysgolion cyfun

(Tudalen 101)

3.8 P-06-1343 Darparwch drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd

(Tudalennau 102 - 103)

3.9 P-06-1372 Achub ein gwasanaeth bysiau hyblyg, Bwcabus

(Tudalen 104)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# P-06-1430 Cefnogi plant byddar trwy wneud ymrwymiad ariannol i adfer niferoedd athrawon plant byddar

Y Pwyllgor Deisebau | 04 Tachwedd 2024
Petitions Committee | 04 November 2024

**Cyfeirnod:** SR24/8813-3

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1430

**Teitl y ddeiseb: Cefnogi plant byddar trwy wneud ymrwymiad ariannol i adfer niferoedd athrawon plant byddar**

**Geiriad y ddeiseb:** Mae athrawon plant byddar yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi datblygiad iaith plant byddar a'u datblygiad o ran cyfathrebu. Maent yn rhoi cyngor i deuluoedd plant byddar, yn ymweld â'r plant yn yr ysgol neu'r coleg, gan gefnogi eu haddysg, ac yn rhoi arweiniad i athrawon prif ffrwd ar ymwybyddiaeth o fod yn fyddar.

Ond mae Cymru wedi colli un o bob pump o'i hathrawon plant byddar ers 2011. Mae tua 2,300 o blant byddar yng Nghymru.

Rwy'n fam i Lola, sy'n bum mlwydd oed ac yn hollol fyddar, a Rudi, sy'n ddwy oed ac yn ddifrifol fyddar.

Rhagor o fanylion: Mae angen cymorth parhaus ar blant byddar sy'n byw ym myd pobl sy'n clywed. Ond, ar hyn o bryd, mae Lola a Rudi yn cael dim ond awr o gefnogaeth yr wythnos gan athro plant byddar. Dros flwyddyn, yn ystod amser ysgol, mae hynny'n rhoi cyfanswm o 37 awr, sy'n llai na fy wythnos waith. Rwy'n credu y dylai pob plentyn byddar weld athro plant byddar o leiaf unwaith yr wythnos, ni waeth pa mor fyddar ydyw.

Mae Lola mewn ysgol gynradd brif ffrwd, sy'n iawn iddi hi, ond pe bai hi mewn darpariaeth arbennig, byddai'n gweld arbenigwyr a phlant byddar

eraill bob dydd. Mae ei chynnydd yn uchelgeisiol, ond os yw'r dechnoleg yn methu, ychydig iawn sydd gennym wrth gefn.

Rwy'n credu bod taer angen hefyd i ddarparu cymorth sydd wedi'i dargedu'n fwy ar rieni plant byddar. Mae dros naw o bob 10 plentyn byddar yn blant i rieni sy'n clywed sydd heb unrhyw brofiad o beth mae'n ei olygu i fod yn fyddar. Pan wnaethom ddysgu bod Lola yn fyddar, roeddwn i mewn sioc. Ar ben hynny, roeddwn yn anymwybodol o'm diffyg gwybodaeth llwyr am faterion pobl fyddar.

# 1. Y cefndir

Mae oddeutu **2,260 o blant byddar** byw yng Nghymru (Arolwg y Consortiwm Ymchwil i Addysg Byddar (CRIDE) 2023). Defnyddir y term 'byddar' i gyfeirio at blant â phob lefel o fyddardod, o'r ysgafn i'r dwys, gan gynnwys byddardod mewn un glust neu fyddardod dros dro, fel clust ludiog (neu '*glue ear*'). Mae'n bosibl na fydd rhai plant byddar, yn enwedig y rheini sydd wedi colli eu clyw dros dro, wedi'u cynnwys yn ffigurau CRIDE ar gyfer Cymru.

**Nid oes gan Gymru ysgolion arbenigol** ar gyfer dysgwyr byddar. Mae 81% o blant byddar yn mynychu **ysgolion prif ffrwd**, tra bod 8% yn mynychu ysgolion prif ffrwd gyda darpariaethau adnoddau, mae 9% yn mynychu ysgolion arbennig ac 1% yn cael eu haddysgu gartref. Nid anabledd dysgu yw byddardod, a gyda'r cymorth cywir dylai plant byddar allu cyflawni ar yr un lefel â'u cyfoedion sy'n clywed. Fodd bynnag, mae gan tua chwarter (24%) o blant byddar Anghenion Dysgu Ychwanegol a nodwyd.

Mae **Athrawon Plant Byddar** yn athrawon sydd wedi cymhwyso ar ôl cwblhau cwrs lefel ôl-raddedig, ac sydd naill ai'n hunan-ariannu neu'n cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol. Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu rhedeg gan brifysgolion yn Lloegr neu'r Alban.

Mae Cymdeithas Brydeinig Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer rôl arbenigol Athrawon Plant Byddar.

Yng Nghymru:

- Mae niferoedd Athrawon Plant Byddar wedi profi **gostyngiad o 1 mewn 5** (20%) ers 2011.

- Yn 2023 roedd 65 o swyddi Athrawon Plant Byddar yng Nghymru, gyda **2% o swyddi gwag**.

- Mae nifer yr Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio mewn **rôl peripatetig (yn gyffredinol, mae Athrawon Plant Byddar peripatetig (neu ymgynghorol) yn gweithio i wasanaethau cynghori a chymorth awdurdodau addysg lleol i blant a phobl ifanc byddar)** wedi **cynnydd o 3% ers 2022** ac **wedi gostwng 17%** ers i'r arolwg ddechrau yn **2011**.

- Mae 36% o Athrawon Plant Byddar peripatetig (sy'n gweithio mewn darpariaethau adnoddau neu ysgolion/colegau nad ydynt yn benodol ar gyfer plant byddar) yn 50 oed neu'n hŷn ac **debygol o ymddeol yn y 10-15 mlynedd nesaf**.

## 1.1. Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

O dan ddarpariaethau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, dylid rhoi **Cynllun Datblygu Unigol** statudol i bob dysgwr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yn nodi eu hanghenion a'r ymyriadau sydd eu hangen arnynt. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru yn 2021, sy'n nodi sut y dylai ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf, a sut y mae'n rhaid iddynt wneud hynny.

Mae Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru wedi cynnig y dylai **bron pob plentyn byddar** gael **ei ystyried yn gymwys ar gyfer Cynllun Datblygu Unigol fel mater o drefn**. Fodd bynnag, yn ôl eu harolwg o aelodau **a gynhaliwyd yn 2022, dywedodd chwarter yn unig o deuluoedd plant byddar fod gan eu plentyn Gynllun Datblygu Unigol**, a soniodd gweithwyr proffesiynol am **ddryswch parhaus** o ran cymhwysedd.

## 1.2. TGAU Iaith Arwyddion Prydain

Mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi datblygiad a TGAU 'Gwneud i Gymru' yn Iaith Arwyddion Prydain, gyda'r addysgu i ddechrau ym mis **Medi 2027**.

Gwnaeth Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Faterion Byddar ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn datgan bod Cymdeithas Brydeinig Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar Cymru wedi nodi bod athrawon plant a phobl ifanc byddar

eisoes yn derbyn ceisiadau ar gyfer adnoddau addysgu, a bod angen sefydlu cymorth sylfaenol i ddysgwyr byddar cyn cyflwyno'r TGAU yng Nghymru. Mae pryder y bydd y TGAU newydd yn rhoi pwysau pellach ar y gweithlu Athrawon Plant Byddar, ac y gallai athrawon sy'n clywed nad ydynt yn Athrawon Plant Byddar, ac a allai, felly, fod heb y lefelau angenrheidiol o sgiliau Iaith Arwyddion Prydain, gael eu recriwtio i addysgu'r iaith.

Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn eu hymateb i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru:

> *we strongly support Qualification Wales' intention to ensure there are opportunities to learn BSL and to introduce the BSL GCSE currently being developed in England to Wales.*

# 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth o effeithiolrwydd ymyriadau addysgol i gefnogi plant a phobl ifanc â nam ar eu clyw (2019) a chrynhoi'r dystiolaeth fel canllaw: Cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar eu clyw mewn sefydliadau addysgol. Mae'r adroddiad yn gwneud y sylw hwn ar rolau proffesiynol:

> Mae angen staff arbenigol i ymgymryd a/neu gynghori ar ddarpariaeth dysgu ychwanegol ac ymarfer cynhwysol a gwahaniaethu […] yng Nghymru a Lloegr yn draddodiadol cydgysylltir y trefniadau cymorth addysgol cymhleth hyn fel arfer gan athrawon cymwysedig y byddar. Gan mai anabledd prin yw byddardod, ni fydd ymarferwyr addysg prif ffrwd yn debygol o ddatblygu neu gadw gwybodaeth arbenigol drwy eu gwaith arferol (gan mai yn anaml y byddant yn dod i gysylltiad â phlentyn byddar). Mae hynny'n golygu y bydd y cyngor a gânt gan athrawon y byddar ynghylch ymyriadau'n arbennig o bwysig.

# 3. Camau gan Senedd Cymru

## 3.1. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ar 16 Gorffennaf 2024, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei adroddiad: A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

Bu ymchwiliad y Pwyllgor yn ystyried mynediad at ofal plant ac addysg i blant a phobl ifanc anabl. Roedd yn cynnwys yr argymhelliad a ganlyn:

> Dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun cyflawni clir ar gyfer mynd i'r afael â bylchau mewn swyddi addysgu arbenigol, ar gyfer Athrawon Plant Byddar, ac Athrawon Plant ag Amhariad ar eu Golwg, er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at y cymorth hwn pan fydd ei angen arnynt. Dylai'r cynllun cyflawni hwn gynnwys targedau, amcanion ac amserlenni clir fel y gellir ei fonitro a chraffu arno.

## 3.2. Y Pwyllgor Deisebau

Cafodd deiseb, P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb, ei ystyried gan y Pwyllgor Deisebau ym mis Mawrth 2015. Roedd adroddiad dilynol y Pwyllgor (Hydref 2018), yn argymell fel a ganlyn:

> bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Gynllunio'r Gweithlu ar gyfer gwasanaethau arbenigol AAA, gan ganolbwyntio'n benodol ar athrawon sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc byddar a thrwm eu clyw. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o gynaliadwyedd tymor hwy y gwasanaethau hyn.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2018, gan nodi fel a ganlyn:

> Rydym yn llwyr ymrwymedig i gefnogi hyfforddi athrawon y byddar. Eleni, rydym wedi dyrannu cyfanswm o £289,000 dros dair blynedd i gefnogi hyfforddiant proffesiynol gweithlu synhwyrau'r awdurdodau lleol. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys hyfforddiant mewn Iaith Arwyddion Prydain ar amrywiol lefelau, a hyfforddiant ôl radd ar gyfer chwech o athrawon y byddar.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar**
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN
(Rob Wilks, Ysgrifennydd)

**Cross-Party Group on Deaf Issues**
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN
(Rob Wilks, Secretary)

# GOHEBIAETH
# CORRESPONDENCE

| | |
|---|---|
| **Recipient Name:** | Members of the Petitions Committee |
| **Address:** | Welsh Parliament<br>Cardiff Bay<br>Cardiff<br>CF99 1SN |
| **Email:** | Petitions@senedd.wales |
| **CC:** | |

12 November 2023

Dear Members of the Petitions Committee

**Deaf education and Petition for a Teacher of Deaf Children and Young People Workforce Strategy**

At the Cross-Party Group for Deaf Issues (the Group) meeting on 26 October 2023, it was agreed that the Chair would write to you on behalf of the Group to seek your support for Rosamund Hannam's petition (No: 245870), asking for a financial commitment from the Welsh Government to restore Teacher of Deaf Children and Young People (ToD) numbers in Wales. The petition has, at the time of writing this letter, collected 464 signatures.

Hazel Badjie, Head of Policy and Influence for Wales at the National Deaf Children's Society (NDCS) delivered a presentation at our recent meeting. She alerted the Group to alarming inadequacies in specialist education support for deaf children, with a mere 37 hours per year per child being allocated. This insufficient provision is compounded by an ongoing reduction in the numbers of ToDs over the past decade, constituting a 20% decrease or a concerning 1 in 5 ratio. She believes that this critical shortage impedes the ability of deaf children to access timely and comprehensive support. Equally troubling is the issue of family engagement, where parents often face overwhelming decisions without adequate information and support. The importance of early intervention cannot be overstated, as it is crucial for nurturing child development, supporting language and communication skills, and enabling deaf children to achieve their full potential. As aptly articulated by Ms Hannam, 'deaf children must thrive, not simply cope.' Unfortunately, family

experiences often include isolation, shock, and a lack of awareness about deaf-related knowledge, underscoring the urgent need for a more robust and accessible support system. We believe that addressing these issues is integral to ensuring that every deaf child in Wales has the opportunity to thrive in their educational journey.

I raised this matter in the Senedd on 3 May 2023. In response, the Minister for Education and the Welsh Language referenced the workforce strategy, highlighting that the Additional Learning Needs (ALN) reforms and Code specifically include references to ToDs. Local authorities and schools were urged to consult to meet the learning needs of deaf students, and a financial commitment was made toward the postgraduate funding route. We would appreciate an update on these efforts.

The Group's members emphasised the specific need for more deaf ToDs, noting that the current route/pathway is not nurtured, resulting in a workforce that lacks diversity and fails to represent the people it serves. This issue demands immediate attention to ensure that the educational needs of deaf students are adequately addressed by a qualified and diverse workforce.

In light of the above, we would be grateful if the Petitions Committee could recommend that the matter be debated in the Senedd, to ensure that the shortage of ToDs and the state of the deaf education system in Wales is at the forefront of the Welsh Government and Members of the Senedd's minds.

Thank you for your time and consideration. The Group looks forward to hearing from you soon.

Yours faithfully

Mark Isherwood

**Mark Isherwood MS**
**Chair of the Cross-Party Group on Deaf Issues**

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1430
Ein cyf/Our ref LN/05450/24

Jack Sargeant MS
Cadeirydd - Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Mehefin 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Mai ynghylch Deiseb P-06-1430 sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi plant byddar drwy wneud ymrwymiad ariannol i adfer niferoedd athrawon plant byddar.

Rwy'n benderfynol o weithio'n ddiflino dros blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae cael y cymorth cywir yn ei le ar yr adeg gywir yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc, gan gynnwys plant byddar, yn gallu cael mynediad at ddysgu, yn mwynhau'r profiad o ddysgu, ac yn cyrraedd eu potensial.  Dyma nod ein diwygiadau i'r Cwricwlwm a'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n cael eu hategu gan ddull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles.

Bwriad y Cwricwlwm i Gymru yw chwalu'r rhwystrau i bob dysgwr, gan roi mwy o hyblygrwydd i athrawon ddiwallu anghenion unigol pob plentyn yn y ffordd orau. Mae'r fframwaith ADY statudol yn sicrhau bod darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr ag ADY yn cael ei chynllunio a'i diogelu. Mae'r diwygiadau yn y ddau faes yn cael eu hategu gan ddull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles.

Mae ymarferwyr addysg medrus yn hanfodol i lwyddiant ein gwaith. Mae athrawon plant byddar ac arbenigwyr eraill yn rhan hanfodol o'r gweithlu hwn, sy'n darparu amrywiaeth o gymorth a chyngor proffesiynol i ysgolion, athrawon, dysgwyr ag amhariad ar y clyw, a'u teuluoedd. Mae'n bwysig bod gan y gweithlu addysg gydbwysedd cywir o wybodaeth, sgiliau ac arbenigedd i sicrhau bod gan bob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag amhariad ar y clyw, fynediad at gymorth sy'n briodol i'w hanghenion.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Ddeddf ADY yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol barhau i adolygu eu trefniadau ar gyfer ADY ac mae hyn yn cynnwys y gweithlu arbenigol. Mae Cod ADY Cymru yn nodi bod athrawon plant byddar ymhlith y rhai y gallai'r awdurdod lleol ymgynghori â nhw i gael barn ar batrymau'r angen sy'n dod i'r amlwg ac addasrwydd y sgiliau a'r arbenigedd sydd ar gael ymysg y gweithlu i gefnogi dysgwyr ag amhariad ar eu clyw, a chyfrannu at benderfyniadau ar ddigonolrwydd trefniadau a chamau rhesymol sydd eu hangen i unioni annigonolrwydd yn y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag amhariad ar y clyw.

Er mai'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio'r gweithlu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau'r gweithlu addysg, gan gynnwys athrawon plant byddar, i ddarparu cymorth effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Dyma pam ein bod ni, yn 2018, fel rhan o'n Rhaglen Trawsnewid ADY, wedi dosbarthu bron i £300,000 dros dair blynedd i awdurdodau lleol yng Nghymru i gefnogi hyfforddiant ôl-raddedig athrawon arbenigol a chynghorol o fewn awdurdodau lleol ar gyfer dysgwyr ag ag amhariad ar y synhwyrau. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant i athrawon plant byddar a hyfforddiant mewn Iaith Arwyddion Prydain

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol ym maes ADY. Yng nghyllideb 2024-25 diogelwyd y setliad llywodraeth leol craidd, sy'n ariannu ysgolion, a'r buddsoddiad ychwanegol o dros £56 miliwn ar weithredu ADY a darpariaeth ADY mewn addysg cyn-16 ac ôl-16. Rydym wedi cynyddu adnoddau mewn ysgolion i weithredu'r system ADY ac arwain strategaethau ysgol gyfan er mwyn i addysg gynhwysol fagu gwreiddiau. Gellir defnyddio'r cyllid sydd wedi  ddarparu ar gyfer darpariaeth ADY yn Grant Addysg yr Awdurdod Lleol (LAEG) ar gyfer hyfforddiant proffesiynol athrawon arbenigol, gan gynnwys athrawon i blant byddar, pan fo hyn yn mynd i'r afael â thaclo pwysau ychwanegol.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar ymyriadau effeithiol ar gyfer dysgwyr ag amhariad ar y synhwyrau mewn lleoliadau addysg, ac yn ogystal â datblygu llwybr dysgu proffesiynol ADY cenedlaethol i gefnogi Cydlynwyr ADY ac ymarferwyr eraill i ddatblygu eu sgiliau i gefnogi pob dysgwr ag ADY. Rydym wedi gweithio gyda'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) i ddatblygu uned e-ddysgu ar gefnogi dysgwyr byddar. Mae'r uned yn rhan o gasgliad sydd yn anelu at roi cymorth i ymarferwyr i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth well o wahanol fathau o anawsterau dysgu neu anableddau. Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth, rydym am ddatblygu ymgyrch i hybu'r casgliad dysgu sydd ar gael i'r sector, a thynnu sylw at rôl athrawon plant byddar yn ein bwletin ADY.

Mae rhieni yn chwarae rhan hanfodol i helpu eu plentyn i gyflawni ei botensial ac mae hyn yn cael ei gydnabod yng Nghod ADY Cymru. Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf ADY, mae gan ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill ddyletswydd i gynnwys a chefnogi rhieni yn ogystal â phlant a phobl ifanc. Mae'r Cod ADY yn cynnwys gwybodaeth am ystyriaethau wrth gynnwys a chefnogi rhieni.

Rydym yn benderfynol o greu system addysg gynhwysol ac yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydweithio â'r sector i'w helpu i ddeall ac ymateb i anghenion pob dysgwr, gan gynnwys plant byddar a'u teuluoedd.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**P-06-1430 Support deaf children by making a financial commitment to restoring Teacher of the Deaf numbers - Correspondence from the Petitioner to the Committee, 24 October 2024**

Thank you for your recent communication regarding the above petition and for sharing the response received from the Cabinet Secretary for Education, Lynne Neagle, regarding the same petition.

I am aware that you have received a response from the National Deaf Children's Society and I would like to take the opportunity to echo what they have said. In my opinion the response from Lynne Neagle doesn't sufficiently address the significant issues that deaf children in Wales are currently facing and will continue to face for years to come unless positive changes and financial commitments are implemented.

As Hazel Badjie clearly highlighted in her response, the number of Teachers of the Deaf in Wales is falling and will continue to do so as a large proportion of the work force are nearing retirement age. As a parent of two deaf children, it is extremely disheartening, in fact devastating, to think that deaf Welsh children are not going to get the support they need to fulfil their potential. The relationship both my children have formed with their specialist support is wonderful to watch and the highly specialised support and guidance offered to mainstream teachers from the Sensory Support Service is invaluable.

As a mainstream educational practitioner of 17 years, I find myself in a very interesting position. I am acutely aware of the lack of deaf awareness and deaf education training that mainstream teachers receive whilst studying on a PGCE course, but also as part of any CPD programme or inset training. Historically, I have taught several deaf students in my own mainstream setting and will admit to having had no prior understanding of the barriers they face every day, as well as having no experience of suitable strategies to fully support their education. Obviously, that has changed significantly since my two children were identified as deaf. Having the experience of a frankly underprepared mainstream teacher and a parent of deaf children has clearly indicated the gaping chasm and lack of supportive scaffolding for deaf children compared to their hearing peers.


Bearing this in mind I was devastated to hear that my government recently rejected recommendation 32 from the CYPE Inquiry which called for a clear delivery plan to address the gaps in specialist teaching posts for ToDs. If you saw the new mother and father in tears over the diagnosis of deafness followed by the hope and relief offered from the specialist team for not only that deaf child, but their entire family, you would not be satisfied with the response from Lynne Neagle either. With this in mind, I urge, no I beg you and the committee to keep the petition open and ask more questions of the Welsh Government. How do the Government intend to support deaf children in Wales? How do they intend to support an adequate

supply of specialist Teacher’s of the Deaf when we are seeing dropping numbers and an aging workforce? How are Welsh Assembly Government planning to support my children to ensure that they are not disadvantaged compared to their hearing peers? Will you choose to support Lola and Rudi? Or will you choose to let them down?

Our family currently feel incredibly lucky to receive the wonderful support that our sensory service provides, but I fear that things won’t always be this way. In the last 6 years the service has had vacant teacher of the Deaf posts which were not allowed to be advertised due to financial issues. How many other local authorities are facing the same problems? How many deaf children are affected by this vacant post?

I recently read the Misson: Probable white paper and I would like to share something from it that resonated with me. “Excellent listening and spoken language outcomes are probable for children with hearing loss when we do what it takes. Hearing healthcare professionals and families should shoot for the moon.” As petition committee chair you have a chance to keep the petition open, push Welsh Assembly Government to answer some tougher questions and to help all deaf children in Wales and their families shoot for the moon, why would you not?

Yours ever hopefully,



Ros Hannam

Jack Sargeant MS
Chair - Petitions Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN

23.10.2024

**National Deaf Children's Society response to the Petitions Committee**

Dear Jack,

Thank you for your communication of 18.10.24 regarding Petition P-06-1430 and sight of the letter you have received from Lynne Neagle, the Cabinet Secretary for Education, dated June 2024. On behalf of the National Deaf Children's Society, we are concerned the response from the Cabinet Secretary for Education does not adequately address the petition call for financial commitment to restoring Teacher of the Deaf numbers.

We would urge the committee to keep the petition open and ask further questions of the Welsh Government about how they intend to maintain an adequate supply of specialist qualified teachers to support deaf children in Wales. A Wales-wide workforce strategy will be vital in ensuring deaf children's right to access an education is upheld and we are keen to work with Welsh Government to achieve this.

The number of qualified Teachers of the Deaf (ToD) in Wales working in a peripatetic role has fallen by 17% since 2011. Furthermore, 36% of peripatetic TODs are aged 50 or over, hence are likely to retire (fully and/or phased retirement) over the next decade or so (CRIDE report, 2023-24)[i]. The investment in 2018 of £300,000, mentioned by the Cabinet Secretary in her communication whilst most welcome and valued, was relevant to an operating context 6 years ago and assumed a workforce analysis approach to support succession planning. This plan has not even sustained the status quo and has burdened individual local authorities to deal with their workforce challenges in silos. We believe it is essential a national specialist teaching workforce strategy is now developed to sustainably restore and grow this workforce to meet the demands of the current operating context.

There are at least 2,260 deaf children in Wales and 81% of school-aged deaf children attend mainstream schools. The success of their education placement relies heavily on the support of peripatetic qualified Teachers of the Deaf, who are teachers with an additional qualification to offer direct teaching interventions with deaf children according to their mode of communication (English, Welsh, BSL or a combination of all) and to maximise their use of assistive listening technology where appropriate. Qualified ToDs plan and oversee bespoke intervention strategies both at school and with families of deaf children, support with the assessment of learning and progress via specialist and/or differential assessments and offer tailored advice to schools to use technology and help build capacity on the ground.

Therefore, mainstream class teachers, ALNCo's, deaf students and their families alike rely heavily on the skills, knowledge and expertise of the Teacher of the Deaf to ensure their local

education offer is inclusive and supportive of individual deaf children's learning. However, challenges continue for families of deaf children in Wales. Parents/carers tell us;

- Their deaf child is experiencing delays in their development, specifically concerned with language, communications, social development, making friendships and with family relationships.
- Parents tell us their deaf child is always playing catch up in school: …'*Socially xy finds it hard to play with friends her age and gets very shy. Since having her Cochlear Implants I have seen an improvement in her confidence, but this is not on par with other peers her age. She is also educationally well behind her peers so she has the added element that she has to try and catch up, if she can…'*
- Families tell us they need more help to develop and support communication in their home. Siblings cannot communicate with their deaf sibling. Some families are paying to learn how to communicate with their deaf child. …'*We have ongoing challenges with xy regarding communicating with him. I (Mum) had to learn BSL very quickly and undertook a year's course to complete some more learning of this. This was extremely hard for us as a family, and xy depended on me every night for bed but when I was not there at bed time he would get upset. I also had to pay for this myself until I got a grant…'*
- For others, delays to accessing free BSL support is costing their deaf child and denying their human right to develop language (oral and/or signed) at the earliest stage.
- One family with deaf twins have developed multiple language modes in their home. This include BLS for one twin and oral Welsh for the other twin. However, the QToD support is delivered in English.
- Parents seek NDCS support as some deaf children feel so lonely and isolated in school, they have developed mental health problems and are at risk of becoming school refusers. Some deaf children are giving up on their education before age 16 years old.
- Families tell us about the lack of suitably qualified support in school, e.g., teaching assistants with BSL level 1 are requested to work with a deaf child who communicates using BSL level 3. This equates to communicating with a secondary school age pupil, using infant-age sign language. Often deaf learners must go without adequately qualified communication support, meaning they miss out on the more academic and challenging aspects of the curriculum, thus limiting their life chances.

We believe deaf children need increased amounts of support from their specialist ToD. We've submitted evidence to the CYPE Inquiry '*Do disabled children have equal access to education and childcare*? (July 2024) and were instrumental to the development of the MS's recommendation 32 that states: '*The Welsh Government sets out a clear delivery plan for addressing gaps in specialist teaching posts, for Teachers of the Deaf, and Teachers of the Visually Impaired, to ensure that all children and young people can access this support when needed. This delivery plan should have clear targets, deliverables, and timeframes so it can be monitored and scrutinised'.* However, we learned earlier this month of the Welsh Government's rejection to this recommendation, citing the same reasons that have been used to inform this response to the Petitions Committee.

We suggest the approach shown by Welsh Government is in danger of letting deaf children down. Coupled with the recent withdrawal of the Welsh BSL GCSE, the emerging narrative suggests deaf education is not making headway and is at risk of falling behind other developments in education. Ultimately, we're concerned that deaf children will pay the long-term price for any short-sighted decision making.

We believe with the right support local authorities can be enabled to cohesively meet the education needs of all deaf learners. In her communication, the Cabinet Secretary mentions there is opportunity to align ALN reform investments and LAEG monies into supporting the professional training of specialist teachers where this addresses additional pressures. We suggest the current operating context reinforces the benefits of a national workforce strategy which is supportive of all local authorities and integral to the delivery of an inclusive education system in Wales. For example,

- ToDs in training currently access both study and placement experience in England or Scotland, however the development of a new training pathway in Wales could bridge this gap and introduce efficiencies.
- Additionally, in line with the aspirations of the Welsh Language and Education Bill it is essential the Welsh speaking ToD workforce is grown (currently only 25% representative) to ensure support for deaf children can be delivered in the Welsh medium.
- Furthermore, planned changes in health services will incrementally increase the demand for more ToDs. The approved policy change to the NewBorn Hearing Screen Wales (NBHSW) programme will achieve earlier identification across all thresholds of deafness, prompting an increased demand for peripatetic ToD support at pre-school age, working across more Early Years settings and the home environment.
- Additionally, current work to include paediatric audiology in the *Future Approach* framework is underway, highlighting unacceptably long waiting times in paediatric audiology. In some cases, young deaf children are waiting for an appointment for half of their current lifetime. Suggested ways forward include increasing the workforce, expanding the offer of clinic appointments into the community and integrated working across health and education systems. A fault line in the number of QTODs will inevitably negatively impact on these plans and intentions, and ultimately fail deaf children.

We would be keen to work with the Welsh Government to consider and develop the elements of a national workforce strategy, to maximise the intentions and aspirations of the ALN reform and Curriculum review. We would proactively seek to achieve synergy with planned changes in other parts of the system, seeking to ensure no deaf child is left behind.

We urge for the Petitions Committee to commit to keeping this petition open and to commit to monitoring closely the changes across the systems that will impact deaf children, alongside the response in education to ensure an adequate Teacher of the Deaf workforce is in place to meet the learning needs of all deaf children.

Yours sincerely

*Hazel Badjie*

Head of Policy and Influence
National Deaf Children's Society
Hazel.Badjie@ndcs.org.uk

---

[i] https://www.ndcs.org.uk/information-and-support/professionals/research-and-data/cride-reports/

# Eitem 2.2

**P-06-1460 Ystyried opsiynau i drosglwyddo perchnogaeth asedau hanesyddol o Ystad y Goron i Lywodraeth Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Arfon Jones ôl casglu 1,612 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Ystad y Goron sy'n berchen ar gestyll Caernarfon, Harlech a Dinbych ac Abaty Tyndyrn. Dyma rai o adeiladau eiconig Cymru sydd â chysylltiad agos â digwyddiadau yn hanes y wlad, yn enwedig Castell Harlech ac Owain Glyndŵr.
Mae'r adeiladau hyn yn bwysig i'n hunaniaeth genedlaethol a'n cof cenedlaethol. Dylai Gweinidogion Cymru ystyried opsiynau i drosglwyddo perchnogaeth yr adeiladau hyn o Ystad y Goron yn ôl i bobl Cymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae cais Rhyddid Gwybodaeth i CADW yn dangos mai Ystad y Goron sy'n berchen ar gestyll Caernarfon, Harlech a Dinbych ac Abaty Tyndyrn.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Wrecsam
- Gogledd Cymru

**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1460
Ein cyf/Our ref JS/10083/24

Carolyn Thomas AS/MS
Cadeirydd — Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Hydref 2024

Annwyl Carolyn,

Llongyfarchiadau ar eich penodiad diweddar fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau a diolch am y llythyr gan y Pwyllgor a anfonwyd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a Phrif Chwip ar 06 Medi ynghylch Deiseb P-06-1460 - Ystyried opsiynau i drosglwyddo perchnogaeth asedau hanesyddol o Ystâd y Goron i Lywodraeth Cymru. Rwy'n ymateb gan fod y mater o fewn fy mhortffolio Gweinidogol erbyn hyn.

Mae buddiannau Ystad y Goron yng Nghymru yn helaeth. Mae'n rheoli gwely'r môr hyd at y terfyn o ddeuddeg milltir, yn rheoli tua 65% o'r blaendraeth a gwely afon llanw, gan gynnwys nifer o borthladdoedd, ac mae'n gyfrifol am dros 50,000 erw o dir comin. Felly, mae rheoli Ystad y Goron yn fater ehangach i Lywodraeth Cymru, yn anad dim oherwydd y goblygiadau i'n polisïau ynni. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys ymrwymiad i fynd ar drywydd datganoli pwerau sydd eu hangen i helpu i gyrraedd sero-net, gan gynnwys rheoli Ystad y Goron yng Nghymru. Mae Ystad y Goron wedi'i datganoli yn yr Alban ac ni welwn unrhyw reswm pam na ddylai'r un pwerau fod ar gael i Weinidogion Cymru.

Argymhellodd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru y dylid datganoli Ystad y Goron, ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu argymhellion y Comisiwn. Rydym yn cydnabod y byddai datganoli rhagor o bwerau yn creu gofynion adnoddau ychwanegol yng Nghymru, gan nad oes swyddogaeth Ystad y Goron sefydledig ar waith yng Nghymru. Hefyd, mae angen i ni ddeall sut y byddai angen i gyllid Llywodraeth Cymru newid mewn ymateb i unrhyw lif uniongyrchol o refeniw o asedau Ystad y Goron yng Nghymru.

Mae'r pedwar safle hanesyddol — cestyll Caernarfon, Harlech a Dinbych ac Abaty Tyndyrn — sy'n destun Deiseb P-06-1460, er yn eiddo i Ystad y Goron, dan ofal y Wladwriaeth ers degawdau. Mae Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, felly, yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cynnal a chadw’r pedwar safle ac yn darparu mynediad cyhoeddus iddynt. Nid yw Cadw yn talu'r un geiniog i Ystad y Goron am y pedwar safle hanesyddol.

Fel y noda'r deisebydd, byddai trosglwyddo'r safleoedd canoloesol gwych hyn o Ystad y Goron i Lywodraeth Cymru yn gam symbolaidd, ond hoffwn bwysleisio na fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth ymarferol i gadwraeth, rheolaeth na chyflwyniad yr eiddo. Felly, nid ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â hyn yn annibynnol ar ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddatrys mater Ystad y Goron.

Edrychaf ymlaen at glywed canlyniad eich ystyriaeth ffurfiol o'r ddeiseb hon a'r camau nesaf y mae'r Pwyllgor yn dymuno eu cymryd.

Yn gywir,



**Jack Sargeant AS**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Minister for Culture, Skills and Social Partnership

**P-06-1460 Explore options for transferring ownership of historical assets from Crown Estate to Welsh Government - Correspondence from the Petitioner to the Committee, 21 October 2024.**

Thank you for copying me in to the Minister's response, which as with all government responses on devolving the Crown Estate is disappointing. I appreciate that Welsh Government support the devolution of the Crown Estate but the response of Labour peer, Lord Livermore to Peter Hain, Dafydd Wigley, Carmen Smith and Lord Thomas of Cwmgiedd give me little confidence that the UK Government are on the same wavelength as the Welsh Government. Whilst it is desirable for a big bang devolution of the CE the intransigence of their colleagues in Westminster this will not happen soon. However this is not a reason to give up as the Crown Estate is a political hot potato for a substantial cross section of the Welsh population who desire to see it devolved. The campaign will continue as will the pressure on the Welsh Government to make more positive noises rather than roll over for unelected people like Lord Livermore. My ask for the Petitions Committee is for positive support for devolution of bite size chunks of the CE like the castles; this is not about monies paid to the CE but the actual principle of Welsh historical assets being owned by the Crown Estate is pretty ironic bearing in mind the history. As a native of Harlech it really grates on me that Owain Glyndwr's castle is owned by the power that subjugated us as a nation. I very much hope that the Committee will record their support notwithstanding the Minister's response.

Diolch

Arfon Jones.

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Caniatáu i deuluoedd Cymru sydd wedi colli baban cyn 24 wythnos gael tystysgrif colli baban

Y Pwyllgor Deisebau | 4 Tachwedd 2024
Petitions Committee | 4 November 2024

**Cyfeirnod:** SR24/9547/8

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1464

**Teitl y ddeiseb**: Caniatáu i deuluoedd Cymru sydd wedi colli baban cyn 24 wythnos gael tystysgrif colli baban

**Geiriad y ddeiseb:** Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno tystysgrifau colli baban i deuluoedd yn Lloegr sydd wedi colli babanod cyn 24 wythnos. Nid yw hyn yn gymwys i deuluoedd Cymru. Gadewch i ni newid hyn!!

## 1. Cefndir

Lansiodd Llywodraeth y DU gynllun ar 22 Chwefror 2024 i alluogi rhieni y bu farw eu baban cyn 24 wythnos o feichiogrwydd i wneud cais am dystysgrif am ddim i gydnabod eu colled. Rhaid i ymgeiswyr fod yn 16 oed o leiaf, a rhaid iddynt fod yn byw yn Lloegr. Mae'r dystysgrif yn ddogfen swyddogol, ond nid yw'n ddogfen gyfreithiol.

Yn wreiddiol, roedd y dystysgrif ar gael i unrhyw riant a oedd wedi colli baban ers 1 Medi 2018. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU bellach wedi cael gwared ar y cyfyngiad hwn.

Mae ymgyrchwyr yn galw am gyflwyno cynllun tebyg yng Nghymru.

Yn yr Alban, gall rhieni sydd wedi colli baban cyn 24 wythnos o feichiogrwydd wneud cais i gofnodi eu baban yn y Llyfr Coffa ar gyfer beichiogrwydd a cholli baban. Maent yn cael tystysgrif goffa yn sgil y cofnod hwn.

# 2. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Mae Aelodau o'r Senedd wedi holi Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ar sawl achlysur.

Ar 23 Ebrill 2024, mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd:

> On 22 February, the UK Government launched a voluntary scheme to allow parents whose baby died before 24 weeks of pregnancy to apply for a free certificate to provide recognition of their loss. This is currently available to any parent who has experienced a loss before 24 weeks in England since 1 September 2018. The UK Government plans to extend the eligibility criteria and remove the existing time limit when it is able to do so. My officials are working closely with their UK counterparts to explore how the scheme could be extended to Wales.
>
> Currently, all families who experience pregnancy loss at maternity units in Wales are supported by bereavement midwives and, in conjunction with the Sands charity, are offered memory boxes, which include a commemorative "birth certificate". We are also collaborating with parent organisations, including Sands and experts in this area, to implement the National Bereavement Care Pathways across Wales specifically for miscarriage, stillbirth and pregnancy loss.

# 3. Ymateb Llywodraeth Cymru

Mewn ymateb i'r ddeiseb, ailadroddodd Llywodraeth Cymru y ffaith bod swyddogion yn gweithio'n agos â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU i archwilio

sut y gallai'r cynllun sy'n cael ei ddarparu yn Lloegr gael ei ymestyn i Gymru. Dywed y Llywodraeth:

> Rydym yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau i'r gofal a'r cymorth profedigaeth sydd ar gael ledled Cymru, gan gynnwys ar gyfer colled yn gynnar yn ystod y beichiogrwydd. Rydym wedi rhoi cyllid i Weithrediaeth y GIG i weithio gyda sefydliadau, gan gynnwys Sands ac arbenigwyr yn y maes hwn, i weithredu'r llwybrau gofal profedigaeth cenedlaethol ar draws Cymru, yn benodol ar gyfer camesgoriad, marw-enedigaeth, a cholli babi.
>
> Yn gynharach eleni, fe wnaethom gomisiynu Sands i gynnal cyfres o 'ddigwyddiadau gwrando' ledled Cymru gyda theuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth a staff sydd wedi eu cefnogi a rhoi gofal iddynt. Bydd y wybodaeth a gesglir yn helpu i ddatblygu llwybr gofal profedigaeth cenedlaethol sy'n benodol i Gymru. Rydym yn disgwyl y bydd cam dau – datblygu a chyflwyno'r llwybrau gofal ar gyfer beichiogrwydd a cholli babi – yn dechrau yn ystod y misoedd nesaf.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw’r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na’u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1464
Ein cyf/Our ref JMHSC/10082/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

08 Hydref 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Medi ynghylch Deiseb P-06-1464 i ganiatáu i deuluoedd Cymru sydd wedi colli babi cyn 24 wythnos gael tystysgrif i gydnabod hynny.

Rwy'n cydnabod bod colli babi yn ystod unrhyw gyfnod o'r beichiogrwydd yn brofiad sy'n peri trallod mawr, a bod y golled yn effeithio ar y teulu cyfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob teulu yn cael cefnogaeth briodol a thosturiol, ac rydym yn deall pa mor bwysig yw hi i'r rhieni bod colli babi yn ystod beichiogrwydd yn cael ei gydnabod yn ffurfiol.

Rydym am i bawb yng Nghymru sydd wedi cael profedigaeth wybod bod cymorth ar gael iddynt, ac rydym yn gweithio ar nifer o fentrau i wella cymorth i blant, pobl ifanc, ac oedolion yng Nghymru.

Mae ein fframwaith profedigaeth cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, yn nodi sut y gallwn ymateb i'r rheini sy'n wynebu, neu sydd wedi dioddef, profedigaeth. Mae'r fframwaith yn cynnwys egwyddorion craidd, safonau gofynnol ar gyfer gofal profedigaeth, ac amrywiaeth o gamau gweithredu i gefnogi cynllunio rhanbarthol a lleol.

Lansiodd Llywodraeth y DU gynllun gwirfoddol ar 22 Chwefror i alluogi rhieni, y bu farw eu babi cyn wythnos 24 o'r beichiogrwydd, i wneud cais am dystysgrif am ddim i ddarparu cydnabyddiaeth o'u colled. Ar hyn o bryd, mae'r dystysgrif hon ar gael i unrhyw riant sydd wedi dioddef y math hwn o golled ers 1 Medi 2018 ac sy'n byw yn Lloegr. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r swyddogion perthnasol yn Llywodraeth y DU i edrych ar sut y gellid ymestyn y cynllun hwn i gynnwys Cymru.

Ar hyn o bryd, mae pob teulu y daw eu beichiogrwydd i ben mewn uned famolaeth yng Nghymru yn cael eu cefnogi gan fydwragedd profedigaeth a'r elusen Sands, a byddant yn cael cynnig blychau atgofion sy'n cynnwys 'tystysgrif geni' er cof.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau i'r gofal a'r cymorth profedigaeth sydd ar gael ledled Cymru, gan gynnwys ar gyfer colled yn gynnar yn ystod y beichiogrwydd. Rydym wedi rhoi cyllid i Weithrediaeth y GIG i weithio gyda sefydliadau, gan gynnwys Sands ac arbenigwyr yn y maes hwn, i weithredu'r llwybrau gofal profedigaeth cenedlaethol ar draws Cymru, yn benodol ar gyfer camesgoriad, marw-enedigaeth, a cholli babi.

Yn gynharach eleni, fe wnaethom gomisiynu Sands i gynnal cyfres o 'ddigwyddiadau gwrando' ledled Cymru gyda theuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth a staff sydd wedi eu cefnogi a rhoi gofal iddynt. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn helpu i ddatblygu llwybr gofal profedigaeth cenedlaethol sy'n  benodol i Gymru. Rydym yn disgwyl y bydd cam dau – datblygu a chyflwyno'r llwybrau gofal ar gyfer beichiogrwydd a cholli babi –  yn dechrau yn ystod y misoedd nesaf. Yn ddiweddar, mae Sands wedi recriwtio swyddog prosiect ar gyfer Cymru, a fydd yn gyfrifol am sefydlu rhwydwaith i rannu arferion a chynnal gweithdai i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn ogystal â chreu grŵp cynghori rhieni.

Yr eiddoch yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1465 Gwnewch Herwgydio Anifeiliaid Anwes yn Drosedd Benodol yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 04 Tachwedd 2024
Petitions Committee | 04 November 2024

**Cyfeirnod:** SR24/9547-9

**Rhif y Ddeiseb**: P-06-1465

**Teitl y ddeiseb**: Gwnewch Herwgydio Anifeiliaid Anwes yn Drosedd Benodol yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb:** Mae anifeiliaid anwes yn rhan o'r teulu. Mae herwgydio'r anifeiliaid hyn yn brofiad trawmatig. Er gwaethaf hyn, mae anifeiliaid anwes a gaiff eu dwyn yn cael eu hystyried yn eiddo personol, ac mae'r dedfrydau cysylltiedig yn dibynnu ar eu gwerth ariannol.

Yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, bydd Bil Herwgydio Anifeiliaid Anwes 2024 yn cydnabod yr effaith y mae'r drosedd hon yn ei chael ar emosiynau a llesiant pobl ac anifeiliaid anwes. Bydd herwgydio cŵn a chathod yn droseddau penodol a allai arwain at ddedfryd o hyd at bum mlynedd o garchar. Mae Bil Herwgydio Cŵn (Yr Alban) hefyd yn cael ei ystyried.

Mae Cymru wedi dewis peidio â chyflwyno trosedd benodol ar gyfer herwgydio anifeiliaid anwes. Bydd cŵn a chathod sy'n cael eu dwyn yn parhau i gael yr un lefel o flaenoriaeth yng Nghymru ag eiddo sy'n cael ei ddwyn – blaenoriaeth isel. Os caiff troseddwr ei ddal, yn gyffredinol, bydd yn wynebu dirwy fechan neu ddedfryd ohiriedig.

Rydym yn annog y Senedd i ddiwygio'r drefn ar gyfer ymdrin ag achosion o ddwyn anifeiliaid anwes yng Nghymru, a hynny drwy gyflwyno trosedd benodol ar gyfer herwgydio anifeiliaid anwes.

O gofio bod cosbau mwy penodol wedi'u cyflwyno yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, bydd anifeiliaid anwes yng Nghymru mewn perygl o gael eu gweld gan ladron fel targedau mwy gwerthfawr. Rhaid inni gynnig yr un lefel o ddiogelwch i'n hanifeiliaid anwes a'u teuluoedd â'r hyn a gynigir mewn rhannau eraill o'r DU.

# 1. Y cefndir

## 1.1. Deddfwriaeth bresennol

Cyflwynodd *Deddf Herwgydio Anifeiliaid Anwes 2024* (y 'Ddeddf') drosedd newydd ar gyfer herwgydio anifeiliaid anwes, gan wneud herwgydio cŵn a chathod yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn drosedd benodol. Gall euogfarnau arwain naill ai at ddirwy a/neu at hyd at bum mlynedd o garchar. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i wneud darpariaeth gyfatebol sy'n ymwneud â herwgydio anifeiliaid eraill a gedwir yn gyffredin fel anifeiliaid anwes.

Mae papur briffio gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin yn rhoi rhagor o wybodaeth am y drosedd herwgydio.

Mae'r drosedd newydd hon yn disodli cyfraith dwyn anifeiliaid anwes o dan *Ddeddf Dwyn 1968* ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon. O dan Ddeddf 1968, diffinnir anifeiliaid fel eiddo a'r gosb fwyaf am ddwyn anifail anwes yw saith mlynedd o garchar. Fodd bynnag, mae dedfrydu'n dibynnu ar werth ariannol yr anifail, felly mae dedfrydau am ddwyn anifail anwes yn gyffredinol yn llai llym.

**Nid yw'r drosedd herwgydio anifeiliaid anwes o dan y Ddeddf newydd yn gymwys i Gymru. Yng Nghymru a'r Alban, mae dwyn anifail anwes yn parhau i fod yn drosedd o dan Ddeddf 1968.**

Efallai eich bod yn ymwybodol o *Fil Herwgydio Cŵn (Yr Alban)* sydd yn yr arfaeth i geisio gwneud herwgydio cŵn yn drosedd statudol. Caniateir i'r Bil gael ei gyflwyno fel Bil Aelod ond nid yw wedi'i gyflwyno'n ffurfiol i Senedd yr Alban eto.

## 1.2. Cefndir i'r Ddeddf Herwgydio Anifeiliaid Anwes

Gwnaeth Llywodraeth y DU sefydlu'r Tasglu Dwyn Anifeiliaid Anwes (y 'Tasglu') ym mis Mai 2021 mewn ymateb i bryderon y cyhoedd bod rhagor o anifeiliaid anwes yn cael eu dwyn yn ystod pandemig Covid-19. Roedd pryderon bod cynnydd yn y galw am anifeiliaid anwes, a arweiniodd at brisiau uwch, yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer yr anifeiliaid anwes y cofnodwyd eu bod wedi'u dwyn. Mae tystiolaeth a gasglwyd gan y Tasglu yn awgrymu bod tua 2,000 o achosion o ddwyn cŵn a 400 o achosion o ddwyn cathod wedi'u hadrodd i'r heddlu yng Nghymru a Lloegr yn 2020. Pwysleisiodd y Tasglu nad eiddo yn unig yw anifeiliaid anwes ond bod ganddynt deimladau.

Casgliad y Tasglu oedd y dylid creu trosedd newydd, 'herwgydio anifeiliaid anwes', a allai newid y ffocws o'r golled i'r perchennog i les yr anifail wrth ddedfrydu.

Roedd ymgyrchwyr yn galw am ddeddfwriaeth a oedd yn adlewyrchu gwerth emosiynol anifeiliaid anwes i'w perchnogion, yn ogystal â'r gofid, i'r perchennog a'r anifail, sy'n gysylltiedig â'u dwyn.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y *Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)* yn 2021. Roedd yn cynnwys darpariaethau i greu trosedd o fynd ag anifail anwes heb awdurdod cyfreithlon yn Lloegr. Fodd bynnag, cafodd y Bil ei dynnu'n ôl ym mis Mehefin 2023.

Cyflwynwyd y *Bil Herwgydio Anifeiliaid Anwes* wedyn i Dŷ'r Cyffredin ar 6 Rhagfyr 2023 gyda darpariaeth i wneud herwgydio anifeiliaid anwes yn drosedd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd y Bil yn Fil Aelod Preifat a noddwyd gan Anna Firth AS a'r Arglwydd Black o Brentwood ac a gefnogwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU. Cafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2024.

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ysgrifennodd Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (yr 'Ysgrifennydd Cabinet'), at y Pwyllgor ynghylch y ddeiseb hon.

Mae'r llythyr yn dechrau drwy gydnabod bod herwgydio anifeiliaid anwes neu golli anifail anwes yn eithriadol o drist a gofidus i berchnogion a'i bod yn ddealladwy bod perchnogion eisiau i rywbeth gael ei wneud.

Mae'r llythyr yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu blaenoriaethu cyflawni ymrwymiadau presennol ar gyfer lles anifeiliaid, y mae'n credu y bydd yn effeithio'n gadarnhaol ar filoedd o anifeiliaid ledled Cymru. Mae ymrwymiadau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer lles anifeiliaid wedi'u cynnwys yng Nghynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021 i 2026, ond nid ydynt yn cynnwys cynlluniau ar gyfer cyflwyno trosedd herwgydio anifeiliaid anwes.

Aiff yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i nodi bod Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i ddeddfu ar y maes hwn yn y dyfodol, os bydd angen gwneud hynny, er bod dwyn anifail anwes eisoes yn drosedd o dan *Ddeddf Dwyn 1968*. Yna, mae'n pwysleisio bwriad Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu addysg i helpu perchnogion i amddiffyn eu hanifeiliaid anwes.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mae'r mater o herwgydio anifeiliaid anwes wedi cael ei godi yn y Cyfarfod Llawn.

Ar 27 Mawrth 2024, gofynnodd Andrew R.T. Davies AS i'r Ysgrifennydd Cabinet pa ystyriaeth a roddwyd i fabwysiadu'r Bil Herwgydio Anifeiliaid Anwes. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> The theft of a pet is a criminal offence under the non-devolved Theft Act 1968 and the maximum penalty is seven years' imprisonment. I appreciate the loss of a pet can be distressing and officials are in dialogue with Local Authorities and the police regarding a range of matters around dog ownership. We are working to provide education for owners to help them protect their animals. For example, ensuring microchipping data is current, not tying pets up outside shops, not leaving them unattended in gardens if not secure and not letting pets roam out of sight when out walking, all of which will feature in the ongoing work on Responsible Dog Ownership.
>
> After careful consideration it has been decided to prioritise resources to existing commitments for animal welfare in Wales at this time and therefore Wales will not be included in the UK Government Private Members' Bill on Animal Abduction.

Ar 16 Medi 2024, gofynnodd Mabon ap Gwynfor AS pa effaith y bydd *Deddf Herwgydio Anifeiliaid Anwes 2024* yn ei chael ar Gymru, a pha ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i gyflwyno Bil tebyg i Gymru. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet gan roi sylwadau tebyg i'r sylwadau uchod.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1465
Ein cyf/Our ref HIDCC/10256/24

Carolyn Thomas MS
Chair - Petitions committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

08 Hydref 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich e-bost ar 17 Medi ynghylch deiseb i wneud herwgydio anifeiliaid anwes yn drosedd benodol yng Nghymru.

O'r cychwyn cyntaf, rwy'n awyddus i bwysleisio fy mod yn cydnabod bod herwgydio anifeiliaid anwes neu golli anifail anwes yn peri gofid eithriadol i berchnogion ac rwy'n gwerthfawrogi eu hawydd i weld rhywbeth yn cael ei gyflawni.

Ar ôl ystyried yn ofalus, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu blaenoriaethu cyflawni ymrwymiadau presennol o ran lles anifeiliaid, a fydd, yn ein barn ni, yn cael effaith gadarnhaol ar filoedd o anifeiliaid ledled Cymru. Felly, ni chynhwyswyd Cymru yng nghwmpas Bil Aelod Preifat Senedd y DU ar Herwgydio Anifeiliaid Anwes (sef Deddf Herwgydio Anifeiliaid Anwes 2024 bellach).

Er bod dwyn anifail anwes eisoes yn drosedd o dan Ddeddf Dwyn 1968, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i ddeddfu ar y maes hwn yn y dyfodol, pe bai angen gwneud hyn.

Gallwn eich sicrhau ein bod yn parhau i edrych ar ffyrdd o ddarparu addysg i helpu perchnogion i ddiogelu eu hanifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod data microsglodynnu yn gyfredol, peidio â chlymu anifeiliaid anwes y tu allan i siopau na'u gadael ar eu pennau eu hunain mewn gerddi os nad yw'r gerddi yn ddiogel, a pheidio â gadael i anifeiliaid anwes grwydro allan o'r golwg wrth fynd am dro.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Unwaith eto, diolch i chi am ysgrifennu ataf ar y mater hwn a gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ein bod yn cymryd y mater hwn o ddifrif.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Gwahardd Ambiwlansys rhag cael eu defnyddio fel gwelyau ychwanegol ar gyfer ysbytai

Y Pwyllgor Deisebau | 4 Tachwedd 2024
Petitions Committee | 4 November 2024

Cyfeirnod: SR24/9547

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1471

**Teitl y ddeiseb:** Gwahardd Ambiwlansys rhag cael eu defnyddio fel gwelyau ychwanegol ar gyfer ysbytai

**Geiriad y ddeiseb:** Mae pobl yn marw HEB FOD ANGEN oherwydd nad oes Ambiwlansys ar gael, gan eu bod yn cael eu defnyddio fel gwelyau ychwanegol y tu allan i ysbytai ag unedau achosion brys ledled Cymru.

'Ni all y sefyllfa sydd ohoni barhau': Mae parafeddygon yng Nghymru yn rhybuddio bod cleifion yn aros hyd at 26 awr i fynd i'r ysbyty.

Dywedodd prif weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Jason Killens, wrth Sky News nad oedd 38% o'i ambiwlansys ar gael yn ystod mis Rhagfyr oherwydd yr oedi hir wrth gael cleifion i mewn i ysbytai.

# 1. Cefndir

Nid yw ambiwlansys yn cael eu defnyddio'n swyddogol fel gwelyau ychwanegol ar gyfer ysbytai, ond mae'r broblem o ambiwlansys yn gorfod aros y tu allan i adrannau brys oherwydd oedi wrth drosglwyddo cleifion i staff ysbytai wedi cynyddu ers pandemig Covid-19.

Mae oedi wrth drosglwyddo cleifion yn digwydd pan nad yw criwiau ambiwlans yn gallu ymateb i alwadau newydd tra'n aros i drosglwyddo cleifion i adrannau brys. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu bod y claf yn cael ei adael i aros yn yr ambiwlans, ond mewn achosion eraill efallai y bydd y claf yn cael ei symud i'r adran achosion brys, ond nid yw criw'r ambiwlans yn gallu cwblhau'r broses drosglwyddo o hyd.

Mae canllawiau GIG Cymru yn dweud y dylid trosglwyddo gofal cleifion o griw ambiwlans i staff ysbyty ar gyfer brysbennu neu asesu o fewn 15 munud. Mae canran y trosglwyddiadau sy'n digwydd yn llwyddiannus o fewn 15 munud i gyrraedd ysbyty wedi bod yn gostwng ers pandemig Covid-19. Cyrhaeddodd ei lefel isaf ym mis Ebrill 2024, pan mai dim ond 14.8% o'r trosglwyddiadau oedd yn digwydd o fewn 15 munud.


## Canran o hysbysu i drosglwyddo o fewn 15 munud i gyrraedd ysbyty




Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaeth Ambiwlans Misol, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru

Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod nifer yr oriau ambiwlans sy'n cael eu colli oherwydd oedi wrth drosglwyddo wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gydag ychydig llai na phum gwaith cymaint o oriau wedi'u colli yn 2023-24 o gymharu â 2016-17. Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr oriau a gollwyd yn dilyn pandemig Covid-19.

### Nifer yr oriau a gollwyd ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans yn dilyn hysbysiad i drosglwyddo mewn adrannau achosion brys




Ffynhonnell: Tueddiadau yng ngweithgarwch gofal brys a gofal mewn argyfwng y GIG: ar Mawrth 2024, Llywodraeth Cymru

Canfu adolygiad clinigol gan Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwlansys, a edrychodd ar sampl o oedi wrth drosglwyddo dros awr a ddigwyddodd yn Lloegr ym mis Ionawr 2021, fod cyfran sylweddol o gleifion wedi profi niwed o ganlyniad. Canfu fod 8/10 wedi profi rhywfaint o niwed, tra bod 1/10 wedi profi niwed difrifol. Maen nhw'n disgrifio'r canfyddiad hwn yn hynod bryderus ac yn dweud ei fod yn gwbl annerbyniol i bawb sy'n ymwneud â gofal cleifion.

# 3. Camau gan Senedd Cymru

Drwy gydol y Senedd hon, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn edrych sut y gellir gwella llif cleifion drwy ysbytai. Cynhaliwyd ymchwiliad byr

yn 2022 yn canolbwyntio ar ryddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar lif cleifion drwy ysbytai. Canfu'r Pwyllgor bod oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai yn cael effaith ar wasanaethau ambiwlans, fel y dangoswyd gan y niferoedd mawr o ambiwlansys a welwyd yn ciwio y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys ledled Cymru.

Dywedodd Jason Killens, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, wrth y Pwyllgor:

> In December, 25 per cent of our available capacity, our fleet, was lost in delayed handover in emergency departments. Of course, that's a direct consequence, as colleagues have already said, of pressure across the system and delayed discharge. What that means for us, of course, is that we've got patients and our crews waiting at the emergency department to enter the hospital and continue treatment, but, importantly [ ] there are patients in the community that we are unable to respond to as a result of [ ] that capacity, being held at the emergency department.

Dywedodd:

> I'm clear that the level of service that we're offering to those patients is unacceptable, and we're doing everything we can to improve that.

Cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sesiwn graffu gyffredinol ddilynol gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ym mis Mai 2024. Dywedodd Jason Killens wrth y Pwyllgor mai oedi wrth drosglwyddo i adrannau brys yw'r her unigol fwyaf i'r gwasanaeth ambiwlans.

Disgrifiodd y pwysau sy'n cael ei deimlo ar draws y system:

> what causes the response delays is our inability to hand over patients at the emergency department, and what causes that problem is the fact that there's a problem with flow through the hospital, through the emergency department into the hospital and back out into the community, particularly in adult social care. So, at any one time, there are something in the order of between 1,200 and 1,500 patients in beds in our hospitals across Wales who could be back in our communities. And we can't get those patients safely back into communities because of problems, particularly in adult social care, with capacity, availability and so on.

# 4. Camau gan Lywodraeth Cymru

Wrth ymateb i'r ddeiseb hon, dywedodd Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

> The Welsh Government has been explicit with health boards that it is not acceptable for people to be kept waiting long periods in ambulances outside emergency departments.

Mae'r ymateb yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mwy na £180m eleni i gefnogi byrddau iechyd a byrddau partneriaeth rhanbarthol i reoli mwy o bobl yn y gymuned yn ddiogel ac mae'n honni y bydd hyn yn helpu i ddatgloi capasiti ambiwlansys a gwella ymatebolrwydd.

Yn 2021, i gydnabod y pwysau parhaus a dwysach ar y system gofal brys a brys a'r risg cysylltiedig o niwed i gleifion a staff, datblygodd Llywodraeth Cymru chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng a chyhoeddodd £25m o gyllid cenedlaethol cylchol i gefnogi Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i'w cyflawni.

Cyhoeddwyd llawlyfr polisi cysylltiedig ym mis Chwefror 2022 ac mae'n cynnwys y targed:

> Gwella cyfraddau trosglwyddo cleifion o ambiwlans, sicrhau nad yw unrhyw un sy'n cyrraedd Adran Argyfwng mewn ambiwlans yn gorfod aros am fwy na 60 munud o'r adeg y byddant yn cyrraedd hyd nes y cânt eu trosglwyddo i ddwylo clinigwr – erbyn diwedd mis Ebrill 2025. Bydd nifer y bobl sy'n aros am fwy na 60 munud cyn cael eu trosglwyddo o ambiwlans yn lleihau'n flynyddol hyd yr adeg honno.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Ansawdd ar gyfer Gofal mewn Adrannau Achosion Brys ym mis Mawrth 2024.

Bu rhywfaint o welliant o ran lleihau oedi wrth drosglwyddo. Mae diweddariad rhaglen chwe nod 2023/24 yn amlygu bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi gwella perfformiad trosglwyddo ambiwlans yn sylweddol dros y 18 mis diwethaf; dileu oedi mewn ambiwlansys 4 awr a lleihau nifer yr achosion o oedi 2 awr i lai nag 1 y cant o'r rhai sy'n cyrraedd drwy broses ymuno newydd a Pharth Asesu a Thriniaeth Gyflym.

Dywedodd Eluned Morgan AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd, mewn datganiad ar y diweddariad:

> Fodd bynnag, mae amrywiad diangen mewn perfformiad ledled Cymru, a'r problemau yn gysylltiedig yn gynhenid â heriau wrth gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty i'r cartref yn brydlon.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1471
Ein cyf/Our ref JMHSC/10084/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

08 Hydref 2024

Annwyl Carolyn,

**Deiseb P-06-1471 Gwahardd ambiwlansys rhag cael eu defnyddio fel gwelyau ychwanegol ar gyfer ysbytai**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Medi ynglŷn â'r ddeiseb uchod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir i fyrddau iechyd nad yw'n dderbyniol i bobl aros am gyfnodau hir mewn ambiwlansys y tu allan i adrannau argyfwng.

Gall oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys effeithio ar brofiad y claf, yn ogystal â gallu'r criwiau ambiwlans i ymateb i alwadau yn y gymuned. Mae gan y byrddau iechyd gynlluniau ar waith i leihau nifer yr achosion lle mae oedi wrth drosglwyddo claf, a chefnogir y cynlluniau hynny gan gyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Ond mae oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys yn aml yn digwydd oherwydd oedi mewn mannau eraill yn y system gofal iechyd. Mae'n rhaid i'r byrddau a llywodraeth leol gymryd camau pellach i leihau nifer y bobl nad ydynt yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amserol, gan y byddai hynny'n helpu i wella llif pobl drwy'r system iechyd a gofal ac yn ei dro leihau'r oedi sy'n digwydd wrth ddrysau blaen ysbytai.

Mae ein rhaglen genedlaethol *Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng* wrthi'n datblygu llwybrau a gwasanaethau cymunedol amgen i sicrhau bod pobl yn cael y gofal iawn yn y lle iawn y tro cyntaf, nad yw bob amser yn golygu mynd i adran argyfwng.

Rydym yn buddsoddi dros £180m eleni i helpu byrddau iechyd a byrddau partneriaeth rhanbarthol i reoli mwy o bobl yn y gymuned mewn modd diogel. Dylai hyn helpu i ddatgloi capasiti ambiwlansys, gan wella eu gallu i ymateb. Rydym yn monitro'r cynnydd a wneir gan y byrddau iechyd yn agos iawn, ac rydym wedi gweld gwelliannau yn ystod y misoedd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

diwethaf. Rydym yn disgwyl gweld gwelliannau pellach dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, wrth i gamau gael eu cymryd i leihau'r amseroedd oedi hiraf.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

Eitem 2.6

# Rhaid diogelu ein bywyd gwyllt … dylid gwahardd glaswellt plastig yng Nghymru!

Y Pwyllgor Deisebau | 4 Tachwedd 2020
Petitions Committee | 4 November 2020

**Cyfeirnod:** SR24/9547-16

**Rhif y Ddeiseb**: P-06-1472

**Teitl y ddeiseb**: Rhaid diogelu ein bywyd gwyllt … dylid gwahardd glaswellt plastig yng Nghymru!

**Geiriad y ddeiseb:**

Gwylio aderyn du neu fronfraith yn chwilio am fwydod a thrychfilod ar laswellt artiffisial yw un o'r golygfeydd tristaf ym myd natur!
Ni all unrhyw bryfed fyw yno ac ni chynhyrchir hadau na blodau ble y caiff ei ddefnyddio, ac felly mae'n cael gwared ar y ffynhonnell fwyd ar gyfer adar, draenogod, chwistlod, llyffantod, ystlumod, tyrchod daear, gloÿnnod byw, gwenyn a llawer o rywogaethau eraill.
Mae hyn yn ychwanegol at y ffaith nad yw glaswellt artiffisial yn amsugno carbon deuocsid, ac yn y pen draw bydd yn creu rhagor o sbwriel plastig na fydd yn pydru am filoedd o flynyddoedd.

Wrth i'n cefn gwlad gael ei drawsnewid fwyfwy ar gyfer ffermio dwys, mae ein bywyd gwyllt yng Nghymru yn dod yn fwyfwy dibynnol ar ein gerddi i gael bwyd.
Roedd yr adroddiad arloesol "Sefyllfa Byd Natur" (stateofnature.org.uk) yn ein rhybuddio'n glir bod angen i ni newid y ffordd yr ydym yn byw ein bywydau os ydym am wrthdroi'r gostyngiad dramatig sydd o ran ein bywyd gwyllt.
Mae pryderon gwirioneddol iawn ynghylch yr effaith negyddol y bydd defnyddio glaswellt plastig yn ei chael o ran llygredd micro-blastig a'r perygl o lifogydd sydyn yn y dyfodol.

Bydd y gweithgynhyrchwyr yn dadlau nad oes angen dyfrio na defnyddio gwrtaith cemegol gyda glaswellt artiffisial, ond anaml y bydd angen dyfrio lawnt yng Nghymru beth bynnag, ac mae gwrtaith organig y gellir ei ddefnyddio, a gellir gofalu am lawntiau gyda pheiriannau torri gwair trydan sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy.
Nid oes gennyf amheuaeth, unwaith y bydd pobl yn clywed y ffeithiau llawn am y difrod y mae glaswellt artiffisial yn ei wneud i'n bywyd gwyllt yng Nghymru, y byddent yn dewis garddio'n gynaliadwy. Unwaith eto, gallai Cymru arwain y ffordd ar gyfer gwaharddiadau yn y dyfodol yng ngweddill y DU.

# 1. Y cefndir

Mae glaswellt neu dyweirch plastig/artiffisial yn cynnwys ffeibrau sydd wedi'u gwneud gan ddyn i edrych fel glaswellt naturiol.

Canfu ymchwil gan Aviva, cwmni yswiriant yn y DU, fod un rhan o bump (21 y cant) o berchnogion tai yn y DU eisoes wedi rhoi glaswellt artiffisial yn lle eu lawnt naturiol, neu'n bwriadu gwneud hynny, ac nad yw llawer yn ymwybodol bod mwy o berygl o lifogydd yn gysylltiedig â'r lawntiau hynny. Un o'r rhesymau pam y mae perchnogion tai yn dewis glaswellt plastig yw ei bod yn haws ei gynnal a'i gadw, nad oes angen ei dorri na'i ddyfrio, a'i fod yn gadarn.

Fodd bynnag, nododd Prifysgol Plymouth fod y problemau amgylcheddol sy'n deillio o ddewis lawnt artiffisial yn llawer mwy na'r manteision posibl hyn, a thrafododd sut mae glaswellt plastig yn niweidiol i'r amgylchedd, gan gynnwys:

- nad yw'n darparu unrhyw fwyd ar gyfer creaduriaid byw;
- ei fod yn cyfyngu ar fynediad i'r pridd oddi tano ar gyfer pryfed sy'n tyllu ac i'r ddaear uwchben ar gyfer creaduriaid sy'n byw yn y pridd fel mwydod;
- ei fod yn cyfyngu ar fynediad i ddeunyddiau naturiol;
- ei fod yn mynd yn llawer mwy poeth na glaswellt naturiol yn yr un tywydd;
- ei fod yn amsugno llawer mwy o belydriad na glaswellt byw;
- ei fod yn cymryd lle planhigion byw a allai gael gwared â charbon deuocsid;

- ei fod yn creu ôl troed carbon mawr yn ystod taith sy'n cynnwys gweithgynhyrchu, cludo a gosod;
- ei fod yn fwy tebygol o achosi i ddŵr redeg oddi ar yr arwyneb ar ôl glaw sylweddol a all gyfrannu at lifogydd.

## 1.1. Adroddiad Sefyllfa Natur

Amlygodd Adroddiad Sefyllfa Natur 2023 fod 18 y cant o 3,897 o rywogaethau yng Nghymru dan fygythiad o ddiflannu, a bod 42 y cant o rywogaethau planhigion Cymru i'w cael mewn llai o fannau nag o'r blaen.


Mae'r papur briffio hwn gan Ymchwil y Senedd yn edrych ar fanteision bioamrywiaeth a'r pwysau arni. Mae hefyd yn edrych ar yr hyn sy'n cael ei wneud i ddiogelu bioamrywiaeth a pha gamau ychwanegol y gelwir amdanynt.

## 1.2. Microblastigau

Mae glaswellt artiffisial yn cael ei wneud o bolyethylen, plastig cyffredin, a gall darnau o'r deunydd hwn wneud eu ffordd i mewn i'r pridd, a thu hwnt, ar ffurf llygredd microblastig.

Mae microblastigau yn ronynnau o blastig nad ydynt ond ychydig o filimetrau yn fwy o ran maint, llai na 5mm mewn unrhyw ddimensiwn.

Yn 2017, dangosodd adroddiad gan OSPAR, dogfen asesu deunyddiau microblastig o'r tir a roddir i'r amgylchedd morol, mai tyweirch artiffisial a deunydd mewnlenwi yw achos rhai o'r allyriadau uchaf o ficroblastigau mewn gwledydd OSPAR.




Ffigur 1. Amcangyfrif o allyriadau o ficroblastigau mewn dalgylchoedd OSPAR (tunnell/blwyddyn) [Ffynhonnell: OSPAR]

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o fesurau i geisio atal llygredd plastig, gan gynnwys:

- codi tâl am fagiau siopa untro;
- gwahardd microbelenni mewn cynhyrchion gofal personol a gaiff eu golchi i ffwrdd; a
- gwahardd cynhyrchion plastig untro sy'n cael eu taflu i'r sbwriel fwyaf.

Ym mis Mehefin 2023, dywedodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, wrth y Senedd ei bod am archwilio a allai'r Ddeddf cynhyrchion plastig untro gael ei defnyddio i wahardd glaswellt artiffisial, ond newidiodd ei meddwl ychydig ddyddiau'n ddiweddarach.

Mewn ymateb i'r ddeiseb hon, dywed Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, fod gan Lywodraeth Cymru "sawl strategaeth bresennol... ymrwymedig sydd ag agwedd benodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â'r mater", gan fod microblastigau yn tarddu o wahanol ffynonellau.

Mae'n tynnu sylw at Strategaeth Economi Gylchol Llywodraeth Cymru Mwy nag ailgylchu, gan esbonio mai economi gylchol yw lle mae llygredd plastig, ynghyd â mathau eraill o wastraff, yn cael ei osgoi a lle mae adnoddau'n cael eu defnyddio cyhyd â phosibl. Dywed ei bod yn "hanfodol ystyried cylch oes cyfan cynhyrchion fel glaswellt artiffisial". Yn 2023, roedd erthygl gan Ymchwil y Senedd yn edrych ar ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â llygredd plastig drwy Mwy nag ailgylchu, ac yn 2024 mae'r erthygl hon yn edrych ar gynnydd yn erbyn y targedau a nodir yn y strategaeth.

Yn ei ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod wedi gofyn i Platfform yr Amgylchedd Cymru drefnu digwyddiad microblastigau i ddeall pa waith ymchwil sy'n cael ei wneud. Mae digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2025.

Mae hefyd yn tynnu sylw at rôl Polisi Cynllunio Cymru wrth "sicrhau canlyniadau bioamrywiaeth cadarnhaol pan gynigir datblygiadau newydd ac i hyrwyddo ymddygiadau a chanlyniadau mwy cynaliadwy lle bynnag y bo modd". Dywed y bydd camau pellach i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth sydd ar y gweill "i gynnwys fframwaith i osod targedau adfer natur statudol manwl", a drafodir yn yr erthygl hon gan Ymchwil y Senedd.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Cynhaliodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd ymchwiliad i leihau gwastraff plastig, ac roedd yn edrych ar ffynonellau ac effaith llygredd microblastig.

Ym mis Chwefror 2022, trafododd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y cynnydd yn y goblygiadau ar gyfer llifogydd sy'n deillio o laswellt plastig. Cyfeiriwyd at bwysau cynyddol ar system garthffosiaeth Cymru.

Trafodwyd y defnydd o laswellt plastig mewn mannau cyhoeddus yn y Cyfarfod Llawn ym mis Mehefin 2023, yn dilyn cwestiwn gan Sioned Williams MS ar 'Gwella'r amgylchfyd trefol'.

> Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1472
Ein cyf/Our ref HIDCC/10183/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau

30 Medi 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich gohebiaeth ar 6 Medi ynghylch "Deiseb P-06-1472 Rhaid diogelu ein bywyd gwyllt ... dylid gwahardd glaswellt plastig yng Nghymru!".

Rwy'n rhannu'r pryderon a amlinellir yn y ddeiseb mewn perthynas â microblastigau. Credaf fod lleihau defnydd cymdeithasol o blastigau yn hanfodol, er mwyn helpu i ddiogelu'r amgylchedd, bioamrywiaeth ac iechyd pobl. Gan fod microblastigau yn tarddu o ystod o wahanol ffynonellau, gan gynnwys gweithgareddau diwydiannol a domestig, mae gennym sawl strategaeth bresennol (DS - cyfeirir at rai o'r rhain yn yr ymateb e-bost a atodwyd gennych - y Strategaeth Economi Gylchol er enghraifft) ymrwymedig sydd ag agwedd benodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â'r mater.

Er mwyn helpu i gydlynu ein hymateb i'r heriau hyn ac i lywio polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio gyda Platfform yr Amgylchedd Cymru i drefnu digwyddiad microblastigau yr hydref hwn. Ein nod yw dwyn ynghyd arbenigedd gwyddonol yn y maes hwn i'n helpu i ddeall pa ymchwil sy'n cael ei wneud ac i nodi unrhyw fylchau presennol o ran dealltwriaeth.

Ein nod yw symud tuag at economi fwy cylchol yng Nghymru, lle mae llygredd plastig ynghyd â phob math arall o wastraff yn cael ei osgoi, a lle mae adnoddau'n cael eu defnyddio cyhyd â phosibl fel rhan allweddol o'n camau gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd a natur. Wrth wneud hynny, mae'n hanfodol ystyried cylch oes cyfan cynhyrchion fel glaswellt artiffisial. Wrth gyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchydd am gynhyrchion fel deunyddiau pecynnu, rydym yn pwysleisio'r rôl y gall gwelliannau o ran dylunio a deunyddiau a ddefnyddir ei chwarae i helpu i wella effeithlonrwydd adnoddau, lleihau llygredd, a chefnogi'r broses o ailweithgynhyrchu ac ailgylchu deunyddiau. Mae ein strategaeth Mwy nag Ailgylchu hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i leihau i sero faint o blastig sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi a lleihau faint o wastraff plastig sy'n cael ei anfon dramor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r Argyfwng Natur a gwella bioamrywiaeth, sy'n sail i'n hiechyd, ein heconomi a'n lles. Byddai plannu glaswellt o

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rywogaethau cymysg yn lle defnyddio glaswellt artiffisial, yn helpu i amsugno carbon ac yn darparu cynefin i fywyd gwyllt.


Mae'n bwysig meithrin dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth ac effaith camau gweithredu penodol. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn ein dull deddfwriaethol a pholisi o ymdrin â bioamrywiaeth. Er enghraifft, un o brif amcanion ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur yw gwella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth. Mae hyn hefyd yn un o nodau allweddol y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Adran 6 a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu holl swyddogaethau a gweithgareddau. Mae'r ddyletswydd adran 6 yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus, ond drwy eu swyddogaethau, gallant gael dylanwad mawr ar y sector preifat a'r trydydd sector, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio er enghraifft. Yn ogystal â chymhwyso'r ddyletswydd yn gyffredinol, mae'r gofyniad i gynnwys bioamrywiaeth yn y broses gwneud penderfyniadau yn cael ei ategu'n benodol trwy Bolisi Cynllunio Cymru. Mae hwn yn nodi "na ddylai unrhyw ddatblygiad beri colled sylweddol o ran cynefinoedd neu boblogaethau rhywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol a rhaid i’r datblygiad weithio ochr yn ochr â natur a bod o fantais net i fioamrywiaeth" (paragraff 6.4.5). Felly, mae gan y system gynllunio gyfrifoldeb allweddol o ran sicrhau canlyniadau bioamrywiaeth cadarnhaol pan gynigir datblygiadau newydd ac i hyrwyddo ymddygiadau a chanlyniadau mwy cynaliadwy lle bynnag y bo modd.

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd camau i annog newid ymddygiad a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn y gall sefydliadau ac unigolion ei wneud i helpu bioamrywiaeth yn rhan o'r cynllun gweithredu i roi Argymhellion yr Archwiliad Dwfn ar waith (cyfres o gamau gweithredu ar y cyd y gallwn eu cymryd yng Nghymru i gefnogi adferiad natur). Hefyd, rydym wrthi'n datblygu deddfwriaeth sylfaenol i gynnwys fframwaith i osod targedau adfer natur statudol manwl a fydd yn cryfhau ymhellach ein gweithredoedd i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a'r hinsawdd.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog sefydliadau sy'n rheoli ardaloedd glaswelltog fel ymylon a pharciau i fod yn fwy ystyrlon o safbwynt torri gwair. Rydym wedi gweithio gyda dy hun ac is-grŵp y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio i ddatblygu'r ymgyrch 'Iddyn Nhw' i egluro y gall newid arferion torri gwair mewn mannau gwyrdd greu cynefin gwell 'Iddyn Nhw': sef infertebratau, adar, mamaliaid bach, amffibiaid ac ymlusgiaid. Mae pecyn cymorth yr ymgyrch yn cynnwys ffeithlun, Cwestiynau Cyffredin a thempledi arwyddion y gall sefydliadau eu teilwra gyda'u logos a'u manylion cyswllt. Mae pecyn addysg ar gael hefyd sy'n cynnwys taflenni lliwio a gweithgareddau i helpu plant i ddysgu am rai o'r anifeiliaid a'r planhigion a allai fod yn byw a bwydo yn yr ardaloedd hyn.

Mae gan y llyfryn Plannu ar gyfer Pryfed Peillio gan y Cynllun Caru Gwenyn awgrymiadau defnyddiol ar sut y gall pobl helpu pryfed peillio, gan gynnwys sut i gynnal lawntiau ac ardaloedd glaswelltog eraill.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

# Eitem 3.1

**P-06-1329 Gosod uchelgais ac amserlen glir i roi addysg cyfrwng Cymraeg i bob plentyn yn y wlad**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Luke Johns, ar ôl casglu cyfanswm o 1,505 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys nod statudol yn y ddeddfwriaeth sydd ar y gweill y bydd pob person ifanc yng Nghymru yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan adeiladu ar hyn dros amser i sicrhau bod mwy a mwy o bobl ifanc yn y dyfodol yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn yr iaith.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Rydym yn credu bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, a bod gan bawb, waeth beth fo'u cefndir, yr hawl i'r iaith.
Mae'r dystiolaeth yn dangos mai'r ffordd i sicrhau bod pobl ifanc yn dod yn rhugl yn yr iaith yw addysg cyfrwng Cymraeg, ond dim ond tua 20% o bobl ifanc sy'n cael y cyfle hwn ar hyn o bryd.
Rydym yn credu y dylai fod twf sylweddol a chyson mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gan adeiladu at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i bawb i sicrhau mynediad i'r iaith i bob person ifanc.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Torfaen
- Dwyrain De Cymru

**P-06-1387 Darparu cymorth dyngarol i Gaza**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sam Swash, ar ôl casglu 1,795 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae Gaza a phobl Palesteina yn wynebu argyfwng dyngarol wrth i fomiau syrthio yn ddiwahân ar adeiladau preswyl, ysgolion, ysbytai, mosgiau, eglwysi, a gwersylloedd ffoaduriaid. Mae miloedd o sifiliaid diniwed, gan gynnwys dros 3,500 o blant, wedi cael eu lladd, gyda llawer mwy wedi cael eu hanafu'n ddifrifol neu eu dadleoli. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi cymorth dyngarol i Wcráin yn dilyn ymosodiad Rwsia yn 2022. Dylai nawr wneud popeth o fewn ei gallu i ddarparu cymorth i bobl Palesteina.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Alun a Glannau Dyfrdwy
- Gogledd Cymru

**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y
Pwyllgor Deisebau

22 Gorffennaf 2024

## Ynghylch: Deiseb P-06-1387 Darparu cymorth dyngarol i Gaza

Annwyl Jack,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn ein **sesiwn dystiolaeth** gyda'r Prif Weinidog ar gysylltiadau rhyngwladol ar 19 Mehefin 2024, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am faterion yn ymwneud â **Deiseb P-06-1387 Darparu cymorth dyngarol i Gaza**.

Gwnaeth y Prif Weinidog gadarnhau o'r newydd y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl cyfrannu pe bai apêl yn cael ei lansio gan y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau,

Gofynnwyd iddo a fydd y toriad o 17.6 y cant i gyllideb datblygu rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn effeithio ar ei gallu i gyfrannu. Ymatebodd y Prif Weinidog drwy ddweud bod unrhyw ostyngiadau yn y gyllideb yn debygol o gael yr effaith a ganlyn:

> *"[It] would affect our ability to provide money to this or any other DEC appeal. […] We don't know when an appeal might be launched. So, the honest truth is it will affect our ability, but I couldn't tell you how much or when, and that's because we don't yet know when a DEC appeal will be launched as well. That is part of the wider reality of our budgetary position."*

Gofynnodd Aelodau a roddwyd ystyriaeth i ffyrdd eraill o gyfrannu, fel arbenigedd. Ymatebodd y Prif Weinidog nad oedd unrhyw sgyrsiau manwl wedi'u cynnal ond, wrth gyfeirio at sefyllfaoedd blaenorol nododd:

*"…in a range of areas, we've provided benefits in kind that aren't always about money—sometimes it's about equipment, sometimes it's about expertise. So, I'd want to look at what we can do in a positive way. And this all comes back to when there is a period in time when we're able to do that, because at the moment, there isn't a permanent or sustainable ceasefire."*

Gobeithiaf fod hwn yn ddiweddariad defnyddiol ar gyfer eich ystyriaeth o'r ddeiseb.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**P-06-1387 – Provide Humanitarian Aid to Gaza - Correspondence from the Petitioner to the Committee, 29 October 2024**

I understand that the Disasters Emergency Committee (DEC) has now launched a Middle East humanitarian appeal, and that the Welsh Government has made a donation of £100,000, which is most welcome.

Given the dire, and continuing, humanitarian crisis in Gaza, do the Welsh Government have any plans to provide further humanitarian aid in addition to the £100,000 donation to the DEC Middle East humanitarian appeal?

Further, in the document sent by Delyth Jewell MS to Jack Sargeant MS regarding an international relations evidence session with the First Minister on the 19th June 2024, the then First Minister, Vaughan Gething MS, stated that the Welsh Government had previously provided benefits in kind, such as equipment or expertise, but that 'no detailed conversations had taken place'.

In light of the fact that the conflict started over a year ago, why is it that no detailed conversations have taken place in relation to benefits in kind which the Welsh Government can provide to the Palestinian people, and why is that that support seems to be conditional upon a 'permanent of sustainable ceasefire'?

It would be useful for the new Welsh Government, and First Minister, to outline their position on this matter.

Further, it would be useful if the Welsh Government could outline their position on broader commitments to assisting both financially, and with benefits in kind, to the rebuilding of Gaza, a task which will require significant finances, expertise, and equipment as a result of the total obliteration of the vast majority of Gaza and its civilian infrastructure.

**P-06-1395 Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Deborah Joanne Munton, ar ôl casglu 4,567 lofnodion ar lein a 1,146 lofnodion ar bapur, sydd yn wneud cyfanswm o 5,713 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae Gwastadeddau Gwent yn dirwedd hynafol sy'n gyfoethog o ran diwylliant ac sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth, hamdden, lliniaru effeithiau llifogydd, storio carbon a chynhyrchu bwyd. Mae bellach yn wynebu cynigion i ddatblygu sawl cynllun ynni solar enfawr cyfagos, ymhlith cynigion datblygu eraill. Ni all system gynllunio Cymru yn ei ffurf bresennol reoli datblygiadau o'r fath, a byddai'r dinistr y byddai'r datblygiadau hyn yn ei achosi o dan y trefniadau presennol yn rhoi diwedd ar y gwlyptir hardd, bregus a chymhleth hwn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae pwysau cynyddol am ddatblygiadau ynni solar ar raddfa gyflym iawn, yn ogystal â datblygiadau eraill (fel parciau busnes), ar SoDdGA Gwastadeddau Gwent, yn ogystal â methiant systemig a hirsefydlog i'w reoli. Er enghraifft, mae'r ymdrechion i symud neu hyd yn oed liniaru'r difrod difrifol a achoswyd gan yr unig fferm solar a adeiladwyd yno hyd yma (yn Llanwern), drwy ddefnyddio amodau cynllunio, wedi methu. Mae'n ddigon posibl bod lefelau llygredd yn y safle ac yn agos ato wedi cynyddu. Mae cornchwiglod, aderyn prin sy'n nythu yng Nghymru, wedi'u gyrru i ddifodiant yno. Newid hinsawdd yw'r prif fygythiad i fioamrywiaeth yn fyd-eang. Mae angen gweithredu ar y cyd ym mhob maes polisi, gan gynnwys ynni adnewyddadwy – ond ni ddylai hyn ddod ar draul bioamrywiaeth. Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn drysorau: Maent yn safleoedd o bwysigrwydd ledled y DU sydd wedi'u dynodi'n statudol ar gyfer bywyd gwyllt. Gan gwmpasu dim ond 12 y cant o dir Gymru, ni ddylid eu targedu ar gyfer datblygiadau adeiledig mawr, pan fo miloedd o hectarau o dir a thoeau ledled Gwent a Chymru yn llawer mwy addas.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Mynwy
- Dwyrain De Cymru

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1395
Ein cyf/Our ref HIDCC/10099/24

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Government.Committee.Business@llyw.cymru

10 Medi 2024

Annwyl Chair,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin at Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio ar y pryd, Julie James AS, ynglŷn â deiseb P-06-1395 sy'n galw am Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent. Mae cyfrifoldeb am y system gynllunio yng Nghymru bellach o fewn portffolio Jayne Bryant, Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio. Fodd bynnag, mae pwnc y ddeiseb yn berthnasol i ran o etholaeth Ysgrifennydd y Cabinet. Felly, ar yr achlysur hwn, trosglwyddwyd y mater imi i ymateb iddo fel Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

Dyma'r eglurhad pellach y gofynnwyd amdano mewn perthynas â'r cwestiynau a godwyd gan y pwyllgor, fel y'u nodwyd yn eich llythyr.

Rwy’n ailadrodd y cyngor a roddwyd ynghynt gan Julie James AS, sef mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn darparu safbwynt clir a chadarn ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Felly, nid ydym yn ystyried bod angen llythyr gan y Prif Swyddog Cynllunio nac ehangu'r canllawiau arfaethedig ar fanteision net ar gyfer bioamrywiaeth fel yr awgrymir gan ddeisebwyr. Mae PCC yn nodi bod datblygiad mewn SoDdGA yn cael ei ystyried yn annerbyniol fel mater o egwyddor, a dylai'r safbwynt polisi hwn lywio unrhyw broses o ddewis safleoedd. Mae'r diffiniad o amgylchiadau eithriadol yn PCC yn gyfyngedig ac mae'n dibynnu ar eu pennu ymlaen llaw drwy gynllun datblygu. Am y rhesymau hyn, nid ystyrir bod y safbwynt polisi ym Mhennod 6 ar SoDdGAau yn gofyn am eglurhad pellach ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu polisi cynllunio cenedlaethol clir a chynhwysfawr ar brosiectau ynni adnewyddadwy ym Mholisïau 17 ac 18 o Gymru’r Dyfodol: Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Bydd y cyfnod adolygu nesaf ar gyfer Cymru'r Dyfodol yn dechrau yn 2026, fel rhan o'r cylch adolygu pum mlynedd ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Lluniwyd Cymru'r Dyfodol drwy raglen helaeth o ymgysylltu, ymgynghori, asesu, casglu tystiolaeth a chraffu. Byddai angen i unrhyw ddiwygiadau posibl a nodwyd fel rhan o'r broses adolygu ddilyn yr un rhaglen helaeth. Wrth benderfynu ar brosiectau ynni adnewyddadwy, dylid ystyried Cymru'r Dyfodol ochr yn ochr â PCC, gyda'r holl agweddau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

perthnasol ar bolisi yn cael eu hystyried yn ystod y broses o wneud penderfyniadau. Gwnaed newidiadau sylweddol i’r Polisi Cynllunio ym mis Hydref 2023 gan gryfhau'r dull polisi mewn perthynas â SoDdGA. Nid ystyrir ei bod yn angenrheidiol felly ar hyn o bryd i fireinio Cymru'r Dyfodol ymhellach.

Diolch unwaith eto am ysgrifennu am y pwnc pwysig hwn. Rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ateb y cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor a'r deisebwyr.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas.**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gareth Jones 13,245 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae cau'r canolfannau hyn yn mynd yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Byddai cau'r canolfannau ymwelwyr hyn yn cael effaith negyddol pellgyrhaeddol ar yr economi leol, yr amgylchedd, a llesiant cymunedol.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Eitem 3.5

**P-06-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Kim Williams ôl casglu 2,422 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae'r gymuned leol ar ddeall bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu cau'r Ganolfan Ymwelwyr yn Ynyslas ddiwedd y flwyddyn hon. Mae hyn yn digwydd heb unrhyw ymgynghori, dim darpariaeth arall ar gyfer amddiffyn amgen y warchodfa natur, a cholli swyddi lleol.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r sefydliad a ddylai fod yn gwarchod ein bywyd gwyllt a'n cymunedau, yn hytrach na'u dinistrio.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae'r ganolfan ymwelwyr yn Ynyslas yn hollbwysig o ran rheoli'r 400,000 o ymwelwyr y flwyddyn sy'n defnyddio'r safle. Mae bywyd gwyllt a chynefinoedd y warchodfa natur yn fregus, ac mae angen eu hamddiffyn rhag y nifer fawr yma o ymwelwyr, cerbydau a chŵn, os ydym am osgoi colli rhagor o fioamrywiaeth yng Nghymru.

Mae presenoldeb staff Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol y flwyddyn yn y warchodfa yn golygu bod yna rwystr naturiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol (cynnau tanau, tipio anghyfreithlon, mynediad i gerbydau) ac yr aed i'r afael yn gyflym ac yn effeithlon gydag unrhyw achosion o'r fath.
Mae'r ganolfan yn darparu gwybodaeth ac addysg i bob ymwelydd, er mwyn iddyn nhw ddeall pam fod y lle yn arbennig, a pha effaith y mae eu gweithredoedd yn ei gael arno. At hynny, mae'n fan cyswllt cymdeithasol i'r gymuned leol, ac yn fan lle mae byd natur yn hygyrch i'r rheini sydd â symudedd cyfyngedig.

Mae rheolaeth effeithiol ar ymwelwyr yn Ynyslas yn hanfodol er mwyn amddiffyn y Warchodfa Natur a'i bywyd gwyllt.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

**P-06-1447 Stop Natural Resources Wales closing the visitor centre at Ynyslas National Nature Reserve - Correspondence from the Petitioners to the Committee, 29 October 2024**

Dear Petitions Committee,

Thank you for the opportunity to submit comments once again.

At this time I would ask that the committee continue impress upon NRW the importance of engaging actively with the community groups involve in all 3 centres and to progress at speed with their consultation processes with clear communications about what is happening and when.

It is imperative that there is no closure of any of the centres and that NRW express explicitly that they will work to retain staff and facilities in any hand over process to community running of the centres.

I would also ask that the committee asks NRW to share not just the financial records for the 3 centres but also its visitor management plans and ecological impact assessments for public access.

There remains a large discrepancy between what NRW are saying to Welsh Government that they are doing and what is actually happening in the communities of the centres. There has yet to be any meaningful engagement or announcements as to when this will be happening.

Thank you for your continued involvement in this issue and your help to amplify the voices that have so far being ignored.

Diolch

Kim

---

Dear Kayleigh

I think Kim has covered off most I wanted to say.

However, I want to ensure that the Committee is aware that NRW has received substantial pay and pension benefit rises in a year when they say there is no money. Also, there have been significant write-offs. (images attached). This does not seem fair or just (particularly considering the Welsh Government has recently had to bail NRW out for a considerably huge IR35 tax bill).

## Executive Team's remuneration

| Executive Team Member | Salary (£5,000 range) | | Benefits in kind (nearest £100) | | Pension benefits[1] (nearest £1,000) | | Total (£5,000 range) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 |
| Clare Pillman [1] (Chief Executive) | 150-155 | 145-150 | 0 | 0 | 40,000 | (10,000) | 190-195 | 135-140 |
| Rachael Cunningham [1] | 125-130 | 115-120 | 0 | 0 | 46,000 | 21,000 | 170-175 | 140-145 |
| Ceri Davies [1] | 125-130 | 115-120 | 0 | 0 | 37,000 | (2,000) | 160-165 | 115-120 |
| Prys Davies [1] | 105-110 | 100-105 | 0 | 0 | 30,000 | 10,000 | 135-140 | 110-115 |
| Sarah Jennings [1] | 130-135 | 120-125 | 0 | 0 | 51,000 | 49,000 | 180-185 | 170-175 |
| Gareth O'Shea [1] | 115-120 | 110-115 | 0 | 0 | 32,000 | (48,000) | 145-150 | 60-65 |

## Losses and special payments by category

The table below provides the number of write offs and special payment requests approved in the year.

| Category or type of loss | 2023/24 Number | 2023/24 £'000 | 2022/23 Number | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Write-off of irrecoverable debts | 70 | 80 | 161 | 222 |
| Loss of assets | 3 | 16 | 10 | 44 |
| Other losses (cash losses, fruitless payments, unenforceable claims, or gifts) | 15 | 241 | 5 | 49 |
| Special payments | 7 | 71 | 8 | 63 |
| **Total** | **95** | **408** | **184** | **378** |
| | | | | |
| Waiver of income* | 9 | 164 | 0 | 0 |
| | | | | |
| **Total** | **104** | **572** | **184** | **378** |

*Waiver of income mostly relating to future sales and does not relate to credit notes to be raised against historical invoices.

In addition, I would like the Petitions Committee to be aware that NRW did just close the visitor center at Cadr Idris, and there seem to be no plans to reopen it, despite

this being an essential place for tourism and where visitors might need assistance and refreshments. We cannot allow this to happen at Ynyslas. I reiterate that this is precisely what they planned to do when they notified staff of the planned closure of Ynyslas Visitor Centre in writing last November.

Finally, on behalf of our group and supporters at Bwlch Nant yr Arian and Coed y Brenin, we would like to understand why so much credence was given to NRW’s assurances by the Minister during the Senedd debate when all the evidence points to them saying one thing and doing another?

Thank you for your continued attention on this matter

Best regards

Polly

**P-06-1346 Darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim a hygyrch i'r rhai o dan 18 oed yng Nghymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a hybu twf**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Charlie Steven Evans, ar ôl casglu 381 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**
Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn chwarae rhan annatod wrth gysylltu plant Cymru â chyfleoedd addysgol, cymdeithasol a gwaith. Fodd bynnag, yn sgil yr argyfwng costau byw, yn ogystal â'r argyfwng hinsawdd, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cymell trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn lleihau allyriadau carbon a gwella twf economaidd.

**Gwybodaeth ychwanegol**:
Roedd cynhadledd ENYA yn 2022, lle roedd 2 gynrychiolydd ifanc o Gymru yn bresennol, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy a fforddiadwy. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus eco-gyfeillgar ddibynadwy, reolaidd, caffaeladwy, hygyrch, diogel a fforddiadwy i bob ardal, gan gynnwys ardaloedd gwledig. (ENOC: https://enoc.eu/wp-content/uploads/ENYA-2022-FORUM-REPORT-FV.pdf)

Roedd Cynllun Tocynnau 9-Ewro yr Almaen yn darparu cludiant diderfyn i deithwyr mewn ardaloedd rhanbarthol a lleol, ac arbedodd 1.8 miliwn tunnell o $CO_2$. Arweiniodd y cynllun hefyd at gynnydd o 80% yn nifer y teithiau trên i ardaloedd twristiaeth gwledig. (Wicipedia: https://en.wikipedia.org/wiki/9-Euro-Ticket#cite_note-16)

Mae Trafnidiaeth Gyhoeddus yn anfforddiadwy, gan fod tocynnau Rheilffyrdd, Coets a Bws wedi codi rhwng 33% a 74% yn ystod y degawd diwethaf. Mae hyn yn destun pryder, o gofio nad oes gan 23% o Gymru, yn ogystal â'r mwyafrif o bobl o dan 18 oed y defnydd o gar. Mae pobl ifanc hefyd mewn mwy o berygl o brofi tlodi trafnidiaeth, sy'n rhwystr rhag cael gafael ar gyfleoedd addysgol, cyflogaeth a chymdeithasol. (Sustrans:

https://www.sustrans.org.uk/media/10425/transportpovertypaper-sustrans_eng.pdf).

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ynys Môn
- Gogledd Cymru

**P-06-1264 Gwarantu cludiant ysgol ar gyfer holl ddisgyblion ysgolion cyfun**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Emma Jane Granville, ar ôl casglu cyfanswm o 181 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Gwrthodwyd i o leiaf 27 o blant 11-12 oed gael cludiant i'w hysgol gyfun agosaf. Mae gan rai o'r plant ifanc hyn gyflyrau meddygol fel asthma ac awtistiaeth ac mae gan o leiaf 1 plentyn epilepsi ac mae disgwyl iddynt gerdded i'r ysgol ym mhob tywydd. Mae'r plant hyn wedi cael eu gwahanu oddi wrth ffrindiau sydd wedi gallu cael pas bws, a dim ond nifer gyfyngedig o blant sydd wedi'u gwrthod. Mae'n warthus.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Dim ond nifer gyfyngedig o blant sydd wedi'u heithrio rhag cael pas bws, a hynny oherwydd cyfreithiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, llywodraeth sydd i fod yn rhoi blaenoriaeth i les plant. Mae yna oedolion ifanc 16 oed yn cael pas oherwydd eu bod yn yr ysgol cyn i'r gyfraith hon gael ei newid, felly er bod y rhain yn ddigon aeddfed i ddod o hyd i fath arall o gludiant, mae plant 11 a 12 oed yn cerdded mewn tywydd echrydus ar hyd ffyrdd peryglus. Mae addysg yn orfodol yn y wlad hon ac felly dylai cludiant fod ar gael i bob disgybl os nad yw'r ysgol gyfun yn y pentref y maent yn byw ynddo. Rydym i gyd yn talu trethi, gan gynnwys taliadau cymunedol ac ni ddylai'r Llywodraeth fod wedi gwneud toriadau i'r ddarpariaeth addysg. Dylai fod yn hanfodol i blant fedru cyrraedd yr ysgol yn ddiogel ac yn sych. Creulondeb llwyr yw gwneud i blant ifanc gerdded 3 milltir mewn pob math o dywydd yn wlyb socian ac yn eistedd mewn gwersi drwy'r dydd.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**
- Pen-y-bont at Ogwr
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Eitem 3.8

**P-06-1343 Darparwch drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Elin Wyn Davies, ar ôl casglu cyfanswm o 349 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Credaf y dylai fod gan bob plentyn mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru hawl i gael drafnidiaeth gyhoeddus am ddim er mwyn iddynt allu teithio i'w hysgol uwchradd ddalgylch* yn ddiogel.

Rydym yn byw 2.4 milltir o ysgol uwchradd ein plant ond mae ein cyngor yn datgan mai dim ond i'r rhai sy'n byw 3 milltir (neu ymhellach) o'u hysgol uwchradd ddalgylch y mae trafnidiaeth am ddim ar gael. Byddai cerdded i'r ysgol yn cymryd rhwng 50 munud ac awr o'n tŷ ni ar hyd ffyrdd prysur a gordyrrog. Nid oes llwybr beicio diogel.

Fel teulu rydym yn gwario dros £80 y mis ar docynnau bws ar gyfer ein 2 blentyn. Mae'n arian na allwn ei fforddio mewn gwirionedd ond i rai rhieni mae canfod £40 y mis (y plentyn) yn amhosib ac felly mae eu plant yn cael eu gorfodi i gerdded ar hyd ffyrdd tywyll, prysur, peryglus a llygredig er mwyn cyrraedd yr ysgol. Mae hyn yn annheg ac yn gwahaniaethu yn erbyn y plant tlotaf mewn cymdeithas.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad (Mawrth 2022) o 'Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)' ac ym mis Mehefin 2022 dywedodd Mark Drakeford y bydd 'rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr a fydd yn sicrhau bod ein holl randdeiliaid yn cael y cyfle i gyfrannu at yr adolygiad ehangach dilynol'.

Diolch am arwyddo.

*Mae ysgol uwchradd ddalgylch yn cyfeirio at leoliad addysg CA3/4 y plentyn/person ifanc gan gynnwys y Ysgolion cyfrwng Cymraeg, Ysgolion cyfrwng Saesneg, Ysgolion dwyieithog, Ysgolion Ffydd, Ysgolion Arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion, darpariaeth EOTAS (Addysg Heblaw yn yr Ysgol) ac ati.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

# Eitem 3.9

**P-06-1372 Achub ein gwasanaeth bysiau hyblyg, Bwcabus**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Michael Iwan Morgan, ar ôl casglu 1,783 lofnodion ar-lein ac 1,267 lofnodion ar bapur, sef cyfanswm o 3,050 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Gwasanaeth bysiau lleol yw "fflecsi Bwcabus." Mae'n gwbl hygyrch ac yn gweithredu mewn ardaloedd penodol yng Nghymru gan gynnig cyfuniad o wasanaethau llwybrau sefydlog a siwrneiau y gellir eu harchebu ymlaen llaw. Nod "fflecsi Bwcabus" yw helpu pobl i deithio'n lleol a chysylltu â gwasanaethau bysiau'r brif lein. Rydych yn gofyn i fws eich codi a gall hwnnw newid ei lwybr er mwyn i'r holl deithwyr gyrraedd lle bynnag y mae angen iddynt fynd.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Cafodd "fflecsi Bwcabus" ei greu i ddisodli gwasanaethau bysiau cymunedol lleol.
Mae pobl mewn cymunedau gwledig yn dibynnu ar y gwasanaeth hwn i weld y meddyg teulu neu i gyrraedd y gweithle, i fynd i siopa a chwrdd â ffrindiau. Mae'r gwasanaeth yn rhan hanfodol o'n cymunedau gwledig ac, i lawer, dyma'r unig ffordd y gallant deithio o le i le a bydd nifer o bobl oedrannus yn ynysig iawn os na fydd y gwasanaeth yn parhau.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
- Canolbarth a Gorllewin Cymru